

Pencampwyr Cymru

Genod Ysgol Brynrefail ar eu ffordd i Malaysia



Bydd chwech o ddisgyblion blwyddyn 10 yn teithio i Malaysia yn yr Hydref ar ôl iddyn nhw ddod yn bencampwyr Cymru yng nghystadleuaeth dylunio car rasio F1 yn Silverstone yr wythnos diwethaf.

Mae tîm Falcon Force yn cynnwys chwech o ferched sy'n astudio Dylunio a Thechnoleg Gwyddoniaeth. Roedd gofynion y gystadleuaeth yn golygu bod yn rhaid i'r merched ymchwilio, dylunio a datblygu model o gar F1 i rasio ar hyd trac 20m o hyd, a hynny gan ddefnyddio CAD/CAM. (Computer Aided Design a Computer Aided Manufacture).

Fe gafodd y criw gyfle i fynd i'r rowndiau Prydeining yn Silverstone ar ôl iddyn nhw ennill gwobrau 'Meddwl Arloesol' a 'Hunaniaeth Tîm Gorau' yn y gystadleuaeth ranbarthol yng Ngogledd Cymru. Yna fe aethon nhw ymlaen i'r gystadleuaeth genedlaethol yn Silverstone lle daethon nhw i'r brig.

Ar gyfer y gystadleuaeth ei hun roedd yn rhaid i'r tîm gynhyrchu cyflwyniad 10 munud ar gyfer arbenigwyr yn y maes peirianeg ar gynllun a pheirianeg y car gan gynnwys y gwaith maen nhw wedi ei wneud yn ystod y broses. Roedd yn rhaid i'r car gael ei rasio ar

drac 20m o hyd gan ddefnyddio blwch nwy. Yn ystod y ras cafodd amser cwblhau'r ras sef 1.28 eiliad ac amser ymateb y tîm ei gofnodi ac roedd yn rhan o'r sgôr terfynol.

Yn y gystadleuaeth Genedlaethol fe lwyddodd tîm Falcon Force i ddod yn bencampwyr Cymru allan o 6 ysgol o Gymru. Mae'r merched wedi cael eu henwebu ar gyfer y wobr 'Women in Motorsport', ac wedi dylunio'r car cyflymaf yng Nghymru. Roedd cyflymdra'r car yn 9fed allan o'r holl ysgolion ym Mhrydain (35 ysgol yn cystadlu).

Rŵan mae tîm Falcon Force yn cael y cyfle i gynrychioli Cymru fel pencampwyr yn rownd derfynol y byd ym Malaysia. "A bydd dipyn o waith i wneud eto cyn hynny" yn ôl eu hathro Mr Paul Griffiths Pennaeth Dylunio a Thechnoleg yr ysgol. "Y cam nesaf i'r tîm rŵan ydi gwneud y car yn gyflymach" meddai. "Hynny yn ogystal â chasglu'r arian a cheisio dod o hyd i noddwyr er mwyn cyrraedd y targed ariannol i fynd i Malaysia."

Y marchod yn y tîm yw Beca Jones, Anna Thomas, Jessica Pritchard, Tesni Smith, Eleanor Edwards-Jones ac Elin Worth.

Am fwy o fanylion ynglŷn â chyfrannu neu noddi cysylltwch â Mr Paul Griffiths yn yr ysgol.

ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 454
Mai 2017**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, S Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, S Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn Mehefin	Copi i law 14 Mai	Bwndelu 26 Mai	Ble Brynrefail
Gorffennaf/Awst	15 Mehefin	30 Mehefin	Bethel

PWYSIG PWYSIG PWYSIG

Oherwydd amgylchiadau, bydd yn rhaid derbyn newyddion pentref, erthyglau, digwyddiadau ac unrhyw eitem i'w gynnwys yn rhifyn Gorffennaf/Awst o'r "Eco" ERBYN DYDD IAU, 15fed o FEHEFIN. Ni ellir cynnwys unrhyw eitem sy'n cyrraedd wedi'r dyddiad hwn. COFIWCH! Dyddiad cau rhifyn Gorffennaf/Awst yw DYDD IAU, 15fed o FEHEFIN. Bydd yr "Eco" allan o'r wasg ar ddydd Gwener 30ain o Fehefin.

LLYTHYRAU

Fforwm Beirdd yr Uchelwyr

Annwyl Ddarllenwyr,

Ar ddydd Sadwrn, 20 Mai, rhwng deg y bore a phedwar y prynhawn, bydd y Ganolfan Uwchegyrdiaid Cymreig a Cheltaidd yn cynnal Fforwm Beirdd yr Uchelwyr 2017 yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai yng Nghlynnog Fawr. Y siaradwyr fydd Nia Powell, Dylan Foster Evans, Eurig Salisbury, Gruffudd Antur a Sara Elin Roberts. Bwriad y dydd fydd dysgu mwy am gyfraniad pwysig yr ardal i lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol. Mae croeso i bawb - os am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Angharad Elias: a.elias@cymru.ac.uk (01970 636543).

Yr eiddoch yn gywir,
Angharad Elias

Cwrs M.A. Gwaith Cymdeithasol,

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at y Cwrs M.A. Gwaith Cymdeithasol sydd ar gael ym Mhrifysgol Bangor, sydd yn gwrs 2 flynedd llawn amser.

Mae gwaith cymdeithasol yn broffesiwn ar gyfer y rhai sydd ag awydd cryfi helpu i wella ansawdd bywydau unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Bydd gweithwyr cymdeithasol proffesiynol yn helpu unigolion sy'n wynebu tlodi; anabled; afiechyd sy'n peryglu bywyd; anawsterau iechyd meddwl neu broblemau cymdeithasol, megis tai annigonol, diffyg addysg, trais, gwrthdaro, camdriniaeth, diweithdra neu gam-drin sylweddau.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn cynorthwyo a chefnogi pobl i ymdopi â materion yn eu bywydau bob dydd; i ddelio â'u perthnasoedd a datrys problemau personol a theuluol.

Mae gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cynorthwyo unigolion sydd angen cefnogaeth mewn cyfnod neu mewn amgylchiadau anodd, am ba bynnag reswm.

Yn ogystal â bod yn gwrs academaidd ar lefel Meistr, mae disgwyl i fyfyrwyr dreulio cyfnodau ar leoliad, yn cael eu hasesu mewn ymarfer. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i fyfyrwyr astudio'r cwrs yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn gyfle unigryw, ac yn ymateb i'r gofynion cynyddol am sgiliau dwyieithrwydd o fewn y gweithlu.

Y gofynion mynediad ar gyfer yr M.A. Gwaith Cymdeithasol ym Mangor yw: gradd B.A. (Anrhydedd) Dosbarth 2(ii) neu uwch;

sgiliau dwyieithog Cymraeg a Saesneg;

gradd 'C' neu uwch mewn Mathemateg a Chymraeg/Saesneg TGAU (neu gyfwerth), ac

o leiaf 6 mis llawn amser (cyfwerth) yn gweithio neu wirfoddoli mewn gofal cymdeithasol neu brofiad tebyg perthnasol

Cewch fwy o fanylion am y cwrs ar y wefan isod:

<https://www.bangor.ac.uk/courses/cymraeg/post/gwaithcymdeithasol.php>

Os ydych chi, neu rywun ydych chi yn ei adnabod yn meddwl hyfforddi fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol, cewch sgwrs anffurfiol neu wybodaeth bellach, drwy gysylltu gyda Fiona Macdonald, Tiwtor Mynediad M.A. Gwaith Cymdeithasol f.macdonald@bangor.ac.uk 01248 388 749.

Diolch yn fawr
Gwenan Prysor

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£33.00: Dienw Llanrug

£20 Er cof am Bert Parry, Sycharth, Llanberis, ar ei ben-blwydd yn 80 ar yr 20fed o Ebrill, gan Anne, Gwawr a Delyth; Mrs June Ward, er cof am Graham.

£19: Elwyn Williams, Cranleigh.

£10: Mrs Evena Hughes, Gwendraeth, Erw Wen, Caethro; Mrs Gwerfyl McCarthy, Childwall; John Evans-Hughes, Kirby Muxloe, Leicester; Er cof am Cyril Owen, 26 Llwyn Beuno, Bontnewydd; Margaret, Crud yr Awel, Porth Gogledd, Deiniolen.

£9: Iolo Llywelyn, Bangor; Mrs Anna Sidebotham, Whalley Bridge.

£5: Geraint Huws Roberts, Bangor; Teulu 9 Stad Tŷ Hen, Waunfawr.

£3: Di-enw, Llanrug

£1: Di-enw, Llanrug



**ORIEL
CWM**

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Llundain
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMBOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

Yn ystod y mis aeth heibio

- Yr olygfa o gopa'r Wyddfa tua Llyn Llydaw yn cael ei dewis fel yr olygfa orau yng ngwledydd Prydain. Pob math o unigolion a chymdeithasau yn ymfalchio. Y tebygolrwydd yw y bydd y fath anrhydedd yn denu mwy fyth o ymwelwyr i gyrraedd y copa a mwy o arian i'r rhai sy'n dibynnu ar dwristiaeth. Yn anffodus bydd hefyd yn golygu mwy fyth o sbwriel yn cael ei adael ar gopa a llethrau'r mynydd fel y profwyd dros ddau benwythnos braf a heulog yn Ebrill.

- Mae defaid William Morgan yn fyw ac yn iach, ac wedi ymsefydlu ar gae pel-droed Llanberis. Dyna'r broblem yn wynebu'r Darans yn un o'u gemau diweddar. O na bai'n bosib hyfforddi'r defaid i frefu eu cefnogaeth yn hytrach na 'chamsefyllian' ac amharu ar ddoniau pel-droed y chwaraewyr.


- Ffrae fawr ynglŷn â defnyddio'r gair 'Pasg' ar wyau siocled. Y Prif Weinidog yn bytheirio ynglŷn â symboliaeth yr ŵy ar Wyl y Pasg, a hynny tra'n gwerthu arfau rhyfel i Saudi Arabia. Gwerthoedd Cristnogol: hwnna ydi o.

- Sylw mwyaf treiddgar ac arwyddocaol y mis: "Ers talwm roedd gwledydd yn cynhyrchu arfau er mwyn ymladd rhyfeloedd. Heddiw mae gwledydd yn cynhyrchu rhyfeloedd er mwyn gwerthu arfau."

- Tensiwn yn cynnyddu ynglŷn â bwriadau niwcliar Gogledd Korea. Yr Unol Daleithiau yn barod i weithredu yn ôl yr Arlywydd Trump. Dylai hyn achosi pryder i bob person gwâr o gofio i Trump awdurdodi gollwng y bom ddi-niwcliar fwyaf mewn hanes ar 'ogof' yng ngwlad Afghanistan.

- Y Prif Weinidog yn treulio ei gwyliau yn ardal Dolgellau. Mae'n amlwg fod awyr iachus Eryri wedi cael effaith arni, oherwydd wythnos yn ddiweddarach cyhoeddodd fod Etholiad Cyffredinol i'w gynnal ym mis Mehefin. Slogan clyfar iawn yn cael ei ryddhau: "Let's make June the end of May". Dydio ddim yn gweithio cweit crystal yn Gymraeg!

Ynni Padarn Peris



Y peiriannydd yn hapus a'r tyrbin yn troi

Ers yr 11fed o Ebrill mae'r tyrbin yn troi! Cafwyd yr hawl gan Scottish Power i ni gynhyrchu trydan a'i allforio i'r grid. Bydded iddi fwrw (ond dim ond dros nos).

Mae angen ambell beth i'w gwblhau eto. Mae cwmni C L Jones am noddi gorffen y cwt, diolch yn fawr iawn iddynt. Bydd yr agoriad swyddogol ar Sadwrn Mehefin 24 rhwng 11 y bore ac hanner dydd.

LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

Dymuna Nigel Williams, Carlinig, ddiolch am yr holl gardiau a negeseuon a dderbyniodd, ac am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn yr ysbyty yn Lerpwl ac Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r holl feddygon a nyrsys am eu gofal arbennig ohono.

Diolch Dymuna Betty, Kevin a Gary a theulu'r diweddar Cyril Owen, 26 Llwyn Beuno, Bontnewydd, ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt o golli g?r, tad, taid a brawd annwyl. Diolch am y rhoddion hael tuag at Ward Cybi Ysbyty Gwynedd a Chyfeillion Ysbyty Eryri. Diolch yn fawr i'r Parchedig Marcus Robinson a'r Parchedig Reuben Roberts am eu gwasanaeth ac i Gareth Jones wrth yr organ ac i Gôr Meibion Caernarfon. Diolch i'r Ymgymerywyr, Roberts & Owen, Penygroes, am eu trefniadau trylwyr a gofalus, a diolch i Enid a'r staff yng nghlwb Golff Caernarfon am y lluniaeth.

Diolch Dymuna June Ward a'r teulu ddiolch o galon am y cymorth a'r caredigrwydd a gawsant ar ôl colli Graham. Diolch i'r teulu, ffrindiau, cymdogion, yr holl bobl sydd wedi galw, y galwadau ffôn ac am yr holl flodau a danteithion. Diolch yn arbennig i Staff Ward Peblig, Ysbyty Eryri, ac i ddoctoriaid a nyrsys Meddygfa Llanberis. Diolch hefyd i Gwynfor Jones am gario allan ddymuniadau Graham mor drwyadl.

Rhoddion i'w trosglwyddo i Ward Peblig, Ysbyty Eryri, ac i Feddygfa Llanberis.

Oedfaon Capel Coch am fis Mai

7fed: Mr Euron Hughes 10yb, Mr Myfyr Roberts 5yh

14eg: Gweinidog 10yb, Oedfa Moli 5yh

21ain: Mr Glyn Owen 10yb, Parchedig Cledwyn Williams 5yh

28ain: Oedfa Deulu 10.30yb

Ffenestri CADNANT Windows
 iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
 13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Gwasanaeth Gwres a Plymio
 Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
 Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Ysgol Gynradd Llanrug



Diolch i Mam Mali o'r Meithrin ddod i siarad gyda'r plant am ei gwaith fel nyrs ac i P.C Owain Edwards tad Beca. Mae'r plant wedi dysgu llawer. Diolch i pawb sydd wedi bod i mewn yn egluro eu



swyddi wrth y plant. Cawsom ddiwrnod o wisgo i fyny fel person sy'n helpu ar ein diwrnod olaf cyn y gwyliau Pasg.



Yr hogiau wedi mwynhau wrth wneud yn wych yn y rygbi ac wedi cyrraedd rownd yr wyth olaf yn y twrnament pêl-droed. Da iawn!



Daeth PC Dylan i'r ysgol yn ddiweddar i drafod diogelwch personal gan gynnwys sut i ddefnyddio y we yn saff.



Bu'r plant yn cymryd rhan yn ddiweddar yn yr her "Big Pedal" sef hybu plant i ddefnyddio beic neu sgwtyr i ddod i'r ysgol. Rhoddwyd cymhelliant ychwanegol iddynt drwy roi clo aur ar feic gwahanol bob dydd. Dyma y criw a ennillodd.

Blwyddyn 5 a 6

Yn ddiweddar, bu Theatr Fran Wen draw yn perfformio eu cynhyrchiad dirdynol o Sigl-di Gwt a oedd yn portreadu teulu o ffoaduriaid a'r rhwystrau oedd yn eu gwynebu. Er yn berfformiad emosiynol iawn bu i bawb fwynhau yn arw. Yn dilyn y cynhyrchiad roedd cyfle i ymdrin â'r thema drwy gelf. Hefyd, cafodd Flwyddyn 5 a 6 gyfle i ymweld â Mynydd Gwefru yn ddiweddar fel rhan o'u gwaith ar ynni. Roedd yn drip difyr iawn.

Llongyfarchion I'r disgyblion fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd.



Parhad LLANRUG



Clwb 200 Pêl-droed Llanrug

£40 - John Gareth Hughes, Llanrug

£20 - Dafydd Efans, Penisarwaun

£10 - Gwynfa Pritchard, Llanrug

Plaid Cymru, Enillwyr Clwb cant Mis Ebrill: 1. Clifford Williams; 2. Mrs Eurwen Rowlands.

Te Prynhawn Merched y Wawr Mi fydd Te Prynhawn yn cael ei drefnu ar Fai 24ain yn y Sefydliad Coffa i ddathlu'r 'Aur', sef hanner can mlynedd ers sefydlu Merched y Wawr.

Bydd croeso i bawb sydd am ddod - ni fydd tâl am y te - dewch i fwynhau!

Babi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Maureen Pierce, Antmor, Bryn Moelyn, ar ddod yn nain i Tobi Alan, mab bach Iona a Tom a brawd hoff i Moli. Pob bendith.

Cofion Dymuniadau gorau am wellhad buan i Helen Shipley, Rhos Ddu. Mae wedi bod i mewn ac allan o'r ysbyty ers amser bellach. Meddwl

amdanoch, Helen.

Cofion gorau at bawb sydd ddim yn dda hefyd.

Profedigaeth Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Meirwen a Selwyn Lloyd a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, Nain a hen nain annwyl iawn, sef Mrs Nellie Jones, Rhosgadfan. Bu gyda'r teulu yn Afallon, Bryn Melyn hyd y diwedd.

Pen-blwydd Cofiwn yn annwyl at Mrs Ceri Jones sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 97 mlwydd oed. Hefyd Mrs Megan Pritchard, 58 Glanffynnon, hithau wedi dathlu ei phen-blwydd yn 89. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch.

Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanrug

Digwyddiadau wythnos Ffair Haf

Nos Fawrth, 6/6: Helfa Drysor Car

Nos Fercher 7/6: Ras plant a Ras 5k

Nos Iau 8/6: Bingo

Pnawn Sadwrn, 10fed o Fehefin, Y Ffair Haf. Cychwyn o Nant y Glyn am 1.00 y

pnawn. Bydd Band Llanrug yn arwain yr orymdaith. Pnawn llawn hwyl i'r teulu i gyd.

Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanrug

Golchi ceir ar ddydd Sadwrn, 20fed o Fai, rhwng 10-1 y pnawn ar Safle Arvonion. Dewch draw i gefnogi.

Cydymdeimlad Anfonwn ein cofion diffuant at Mr a Mrs Hywel Morris, Clydfan, Ffordd Glan Moelyn yn dilyn eu profedigaeth wedi marwolaeth chwaer Gwennie Morris, sef Olive Jones, Hafod Olau, Deiniolen.

Diolch Dymuna Betty, Kevin a Gary a theulu'r diweddar Cyril Owen, 26 Llwyn Beuno, Bontnewydd, ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a

charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt o golli gŵr, tad, taid a brawd annwyl. Diolch am y rhoddionhaeltuagat Ward Cybi Ysbyty Gwynedd a Chyfeillion Ysbyty Eryri. Diolch yn fawr i'r Parchedig Marcus Robinson a'r Parchedig Reuben Roberts am eu gwasanaeth ac i Gareth Jones wrth yr organ ac i Gôr Meibion Caernarfon. Diolch i'r Ymgymerywr, Roberts & Owen, Penygroes, am eu trefniadau trylwyr a gofalus, a diolch i Enid a'r staff yng nghlwb Golf Caernarfon am y lluniaeth.

Capel y Rhos

Ar Ebrill y 9fed bedyddiwyd Cai Tomos Gareth Hughes, mab bach Ian Hughes ac Emma Smith, 13 Rhos Rug. Pob bendith i'r teulu bach.

Oedfaon mis Mai

- 7: Y Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson. Gweinyddir y Cymun
- 14: Y Parch R.O. Jones
- 21: Y Gweinidog
- 28: Mr Robert Morris.



Gefeillio Bandiau Pres o Gymru a Norwy



Yn ystod mis Ebrill mwynhaodd cynulleidfa deilwng gyngerdd arbennig ac unigryw yng Nghapel y Rhos, Llanrug. Rhannwyd y cyngerdd i ddau hanner, gyda Band Llanrug yn diddori yn yr hanner cyntaf a Band Tysnes yn dilyn. Cafwyd perfformiad hefyd gan Fand Iau Llanrug. Roedd yn un o'r digwyddiadau a drefnwyd ar achlysur gefeillio go anghyffredin rhwng Band Llanrug a Band Tysnes o Norwy. Credir mai dyma'r tro cyntaf i fandiau pres efeillio, a'r cysylltiad Cymreig fu'n gyfrifol am hynny. Mae Paul Hughes, hyfforddwr ac arweinydd Band Llanrug wedi treulio llawer o amser yn ymweld â Norwy, ac wedi chwarae gyda Band Tysnes yn ystod yr ymweliadau hynny. Mae nai iddo, Chris Hughes o Benrhosgarnedd, hefyd yn chwarae i'r Band, a bellach wedi cael gwaith a setlo'i lawr a magu teulu yno. Y berthynas

deuluol (ac offerynnol) fu'r ysgogiad i wneud cysylltiad mwy clos rhwng y ddau fand.

Ac mewn seremoni yng Nghastell Caernarfon y prynhawn wedi'r cyngerdd, gwnaethpwyd y cysylltiad yn un swyddogol. Cynhaliwyd y seremoni yn y castell oherwydd mai Band Llanrug yw band swyddogol tref Caernarfon. Yn ystod y seremoni cyflwynwyd ffrâm o luniau ar lechen i Fand Tysnes a 'coaster' llechen i bob aelod o'r band. Yn gyfnewid derbyniodd Band Llanrug blât o bren wedi ei gynllunio a'i addurno gan aelodau'r band o Norwy yn ogystal a siec i gychwyn cronfa Band Llanrug ar gyfer eu hymweliad â Norwy yn ystod 2018. Trosglwyddwyd baneri a chyflwyno placiau gwydr gan Feiri Caernarfon a Tysnes.

Parhad LLANRUG

Merched y Wawr Nos Fawrth, Ebrill 4ydd, estynnwyd croeso i bawb gan ein Llywydd, Margaret, a chychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad. Llongyfarchwyd Dafydd Whiteside Thomas ar ei Feicio Noddedig er budd Ysgol Pendalar gan godi swm sylweddol i'r ysgol arbennig honno. Derbyniwyd llythyr gan Osian Evans, Ysgol Brynrefail sydd wedi'i ddewis i fynd i Batagonia gyda'r Urdd ym mis Hydref 2017, fel rhan o brosiect gwirfoddol rhyngwladol, sy'n golygu trefnu'r daith, gwirfoddoli ar amryw o brosiectau i godi arian a chyfathrebu gyda phartneriaid ym Mhatagonia. Mae pob unigolyn yn gorfod codi £2,400 i gymryd rhan yn y prosiect yma. Cytunwyd i noddi Osian gyda'r dymuniadau gorau iddo.

Cynhelir Gŵyl Wanwyn Ysgol Bro Rhyddgen, Machynlleth ar Fai 20fed. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars ar Fai 11 ac edrychir ymlaen am ddiwrnod amrywiol eto eleni.

Ar Fai 24ain cynhelir Te Prynhawn i Ddathlu'r Aur. Pnawn Iau, Mehefin 22ain bydd cyfle i fynd i'r Parc i weld Paneli'r Dathlu rhwng 2 a 3 o'r gloch. Bydd ceir yn cael eu trefnu i fynd yno.

Ar Fehefin 13eg byddwn yn mynd ar wibdaith gan erfyn am dywydd teg.

Gŵr gwadd y noson oedd Gareth Jones o Lanrug yn sôn am adar a natur yn ei gyfanrwydd. Bu'n orig hynod ddifyr gyda nifer o'r aelodau yn barod i fynegi eu profiadau a'u hatgofion hwy am eu plentyndod a'u cariad at fyd natur. Gwerthfawrogwyd y bwrdd natur yn ein hysgolion flynyddoedd yn ôl gan ennyn diddordeb ym myd blodau, coed ac anifeiliaid. Gwyddem ble i fynd i chwilio am nythod adar, ble i gasglu plu'r gweunydd, bonet Nain, briallu a'r gwyllt atgofus glychau'r gog.

Adar yw prif ddi-ddordeb Gareth ond roedd ei chwilfrydedd ym myd natur yn gyffredinol yn syfrdanol. Anogir rhieni a'r neiniau a'r teidiau i dreulio amser yn yr awyr agored yn chwarae, chwilota a dysgu hefo'r plant. Ewch allan i'r coedwigoedd, at lynnoedd, i'r traethau a'r gwarchodfeydd a cheisiwch brocio dychymyg y plant i droi'n drên.

Diolchwyd i Gareth am orig hynod hamddenol, ac yn sicr addysgiadol, gan ddwyn atgofion melys am blentyndod slawer dydd yn ôl.

Buasai elusen 'Achub y Plant' yn hynod falch o fagiâu, gemwaith, ategolion a theis dynion i'w gwerthu yn Eisteddfod Môn.

'Os nad ydynt mwyach at eich dant,

Beth am eu rhoi i Achub y Plant

I godi pres at elusen fawr ei sôn,

Ein nod yw eu gwerthu yn Eisteddfod Môn!

Y mae Ann Ifans yn fodlon eu derbyn a'u cludo i Eurgain Haf. Swyddog Cyfathrebu yr Elusen. Diolch o galon.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol nos Fawrth, Mai 9fed, gyda chyflwyniad gan Gavin a Cheryl, Tŷ Siocled, Caernarfon.



Fachwen (9/4/17)

Fe'i codwyd uwch Tan' Rhiw mewn wythnos
(nis gwn yn union y dydd)
ond bellach, ni fydd yr un achos
i'r crwydryn i holi lle bydd.

pan gerdda'n hamddenol i fyny
o'r bont am Ddinorwig draw,
mae'r arwydd swyddogol yn harddu
ac yn dweud – pwy bynnag ddaw
Fachwen – ond Fach Wen sydd yn gywir
wrth ynganu enw y lle,
ond, be ydi'r ots am y cefndir
mae'n hardal yn awr ar y wê!

Fe 'sgwennodd 'rhen Hobley ei glasur
am Fethodistiaeth y Sir
'bell bell cyn oes 'run cyfrifiadur,
a dywedodd yn hollol glir
mai ystyr yr enw yw 'mangre
wynfydedig' ar ddaear Duw -
bryd hynny roedd y lle yn 'Rhywle',
yn gymdogaeth, a'r iaith yn fyw!

Mae'n rhaid i minnau fodloni
yn ddiolchgar 'am yr hyn a gaed'
ond, nid arwydd wna'r dagrau gronni -
mae Fach Wen mor dew yn fy ngwaed.

Norman Closs

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Cyhoeddiad Yn flynyddol bellach mae gwirfoddolwyr wedi bod yn casglu sbwriel o amgylch Caeathro ac wedi gwneud gwahaniaeth mawr i daclusrwydd y pentref. Eleni bydd cyfle i unrhyw un ymuno i gasglu fore Sul, Mai 21ain, am 10.30, ac i ymgynnull o flaen y capel am 10.15 i dderbyn yr offer a gwasgod felen. Diolch i'r Pwyllgor Cae Chwarae am drefnu. Dewch yn llw.

Tynfa Caeathro am fis Ebrill 1af £40 (101): D. Parry, Cefn Rhos; 2il £25 (32): Llinos Griffith, Eryl Cottage; 3ydd £15 (76): Dr Helen Jones, Maes y Coed; 4ydd £5 (73): Marian Hughes, Tŷ Mawr.

Diolch Dymuna Mrs Evena Wyn Hughes, Gwendraeth, Erw Wen, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd yn ystod profedigaeth o golli Selwyn Hughes. Diolch hefyd am yr holl roddion ariannol a dderbyniwyd tuag at Syrjeri Waunfawr. Estynnir diolch o waelod calon i Huw Ceiriog am ei deyrnged a'i gyfeillgarwch triw a'i gefnogaeth i ni fel teulu. Carwn ddiolch i'r Parchedig Geraint Roberts ac i'r ymgymerwyr ac yn arbennig i Iolo am ei ofal a'i gynhaliaeth dros gyfnod mor anodd.

Diolch Dymuna'r Parch Eric a Beryl Roberts, Erw Wen, ddiolch yn fawr am yr holl garedigrwydd ddangoswyd tuag atynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Bu dathliad i'r teulu oll ger Aberystwyth a chafwyd amser bythgofiadwy.

Gwasanaethau'r Capel

Mai 7ed am 2.00 y prynhawn: Y Parch Marcus Wyn Robinson.

Mai 21 am 2.00 y prynhawn: Y Parch Ronald Williams / Parch Mererid Mair.

Dymuniadau Gorau Enillodd Anna Celyn Evans, Erw Wen, y wobwr gyntaf am ganu Unawd Bl 3 a 4 yn Eisteddfod yr Urdd y Sir yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddi a dymuniadau gorau yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Mai. Da iawn ti.

Clwb Merched Wedi dwy noson allan yn Bragdy Llŷn a Galeri byddwn yn ôl yn yng Nghanolfan y Capel nos Iau, Ebrill 27ain ar gyfer noson o iechyd a ffitrwydd yng nghwmni Debbie Jones o Ganolfan Hamdden Caernarfon, a chynhelir y Cyfarfod Blynnyddol. Mae tymor y Clwb yn prysur ddirwyn i ben a byddwn yn diweddu y rhaglen gyda ymweliad a swper yn Storiell, Bangor ar Fai 25ain.

CWMY GLO

Undeb y Mamau Cynhaliwyd prynhawn tawel yn Eglwys Sant Mair ar 21 Mawrth gyda'r Tad John. Croesawyd pawb gan Auriel a Jean a Lesley o'r cyfarfod gyda'r nos. Cymerwyd y gwasanaeth gan Auriel a darllenodd Joyce lith. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Louie, Katie, Bet, Jini Jones, Nerys a Hilda.

Croesawyd Enid ac Iris yn ôl yn dilyn cyfnod o salwch. Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror, a'u derbyn fel rhai cywir. Cafwyd sgwrs gan y Tad John am ystyr y Garawys.

Gan fod cyfarfod mis Ebrill yn syrthio ar Fawrth y Pasg, cytunwyd i ymuno gyda aelodau gyda'r nos i gael Te Prynhawn yn "Feed my Lambs" ar 24 Ebrill, pryd bydd Mrs Jenny Lane yn bresennol. Enillwyd y raffl gan Lesley a'r gwesteion oedd Marjorie a Dorothy, a diolchwyd iddynt gan Auriel. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Diolch Dymuna Les, Morannedd, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Hefyd, dymuna Hilda ddiolch i bawb am y galwadau ffôn a'r blodau a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar ar ei ffêr yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Caryl Baylis, Bryn Crwn Cottage, ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

Marwolaeth Yn dawel yn ei chartref ar 8fed o Ebrill bu farw Mrs Ann Hughes, 10 Dôl Afon, yn 66 mlwydd oed, merch hynaf y diweddar Robin ac Enid Price, Stryd Newydd. Bu ei hangladd fore Mawrth, Ebrill 18fed yn Eglwys St Mihangel, Llanrug a rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod, Richie, a'r plant Sharon, Barry, Sandra a Cheryl a'r wyrion a'r wyresau a'r gor-wyrion a'r gor-wyresau, ei brawd, Steven a'i chwaer, Doreen a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Ann, Caban, Menter Fachwen, yn ei phrofedigaeth lem o golli ei chymar, Dennis.

Tymor yr Arholiadau Dymuniadau gorau i blant y pentref sydd yn sefyll arholiadau yn yr ysgol neu mewn coleg yn ystod yr wythnosau sydd i ddod.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

Dros y Cant Braf oedd gweld Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, yn ymddangos ar Heno ar S4C y noson o'r blaen yn edrych mor dda a gwên ar ei hwyneb. Mae Mrs Morris yn 102 ym mis Mehefin ac y mae yn prynu yr Eco bob mis ac yn ei fwynhau. Felly, Mrs Morris, mae yr ardal wedi bod yn falch o'ch gweld yn edrych mor dda ar y teledu a dyna oedd y sgwrs am rai dyddiau. Pawb wedi synnu.

Yr oedd Mrs Morris, pan yn byw adref, wrth ei bodd yn gwneud bwyd blasus. Ymlaen yn awr at mis Mehefin gan obeithio am iechyd a phob bendith.

Un arall yw Priscilla Williams, Wylfa, hi wedi bod yn bur wael yn ystod y mis diwethaf ac wedi bod yn gaeth i'w gwely. Erbyn hyn y mae wedi cael codi ac yn gwisgo bob dydd a deallaf ei bod wedi gwella unwaith eto ac wedi dechrau canu wrth eistedd yn ei chadair ger y tân. Mae Anti Cilla wedi cael y fraint o aros yn y cartref ac Alwyn ac Eirwen yn gwyllo yn ofalus iawn amdani.

Fe fydd hi yn 103 os caiff weld 24 o Hydref. Felly, Mrs Williams, daliwch i ganu, cael iechyd a phob bendith ac edrych ymlaen am y diwrnod mawr. Cofion annwyl gan bawb yn yr ardal.

Llongyfarchiadau Mawr i Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ar y 4ydd o Ebrill ganwyd mab bach i Carina ac Alwyn, sef Efan Thomas, brawd i Guto a Noa ac mae'r ddau yn meddwl y byd ohono ac Alwyn wrth ei fodd yn chwarae efo'r hogiau. Gobeithio y caiff y teulu nerth ac iechyd i fagu'r bychan. Gan eu bod yn nain a thaid unwaith eto a'r teulu yn cynyddu bydd raid i Margaret fynd ati i wneud mwy o gacennau. Pob lwc, bendith ac iechyd i'r teulu bach newydd.

Eisteddfod yr Urdd Gan bod yr eisteddfod bron wrth y drws dymunwn yn dda i'r rhai o fro yr Eco a fu yn cystadlu ac yn gobeithio dod â gwobrau yn ôl i'r fro. Hwyl fawr ichi ond cofiwch, os na fu gwobr, y cystadlu sydd yn bwysig a pheidiwch â digalonni. Mae yna dro nesaf a gwell lwc.

Cofion Cofion annwyl at bawb o'r ardal sydd wedi bod yn cwyno a gobeithio am well iechyd i'r dyfodol. Rhyw bythefnos arall ac yr wyf yn siŵr y bydd y gog hefo ni unwaith eto. Felly paratowch i gael mynd allan i'w chlywed yn canu. Brysiwch wella i gyd a chofiwch gael arian yn eich pced.

TUDALEN YR

IFANC

Sôn am Sîn: Dim Llwyfan

Mae'n anodd dychmygu cyfnod canol fy ardegau heb fynychu gigs yn y Bedol ym Methel. Gyda'r dafarn ddim ond ychydig o gamau o ddrws cefn y ty, roedd mynd i weld ein hoff fandiau, a'r rheiny i gyd yn rai o'r filltir sgwâr, yn haws o lawer na gwneud siopa wythnos, hyd yn oed. Bryd hynny, roedd bandiau'r fro yn prysur hawlio'r sîn iddyn nhw eu hunain, a'r 'Bethel Invasion' yn cyrraedd mor swllyd â brân mewn corn simna'. Ond cyn iddyn nhw allu gwneud hynny, roedd angen digon o gyfleoedd iddyn nhw fagu eu crefft ar llwyfan yn lleol. Yn wir, roedd grwpiau fel Derwyddon Dr Gonzo a'r Bandana yn cael eu hadnabod am eu perfformiadau byw, ac mae eu ymddangosiadau ar llwyfannau gwyliau cerddorol mwyaf ein gwlad yn chwedlonol erbyn hyn. Mi fues i, ymysg â fy nghyfoedion lleol, yn ddigon lwcus i gael eu gweld nhw'n magu eu profiad.

Heb ramantu'n ormodol, mae'n deg dweud, ar y pryd, bod yna rywbeth yn digwydd yn lled reolaidd mewn lleoliadau amrywiol ar hyd a lled bro'r Eco. Nid y Bedol yn unig oedd yn gyfrifol am roi llwyfan i'n bandiau ifanc – roedd tafarn Penbont, Llanrug, neu'r Fricsan, Cwm y Glo, heb sôn am Lanberis, yn leoliadau amlwg i fandiau'r fro gael datblygu eu sain a'u set cyn mentro ymhellach. Ers hynny, mae'n debyg bod ein byd wedi newid. Rwy'n deall nad yw'r busnesau hynny'n gweithredu'n yr un modd a'r dyddiau a fu, ond onid yw hi'n anffodus eu bod, erbyn hyn, â'u llwyfannau

mor ddistaw? Heblaw am ddau berfformiad gan CaStleS ym Mhenbont a gwesty'r Padarn Lake, pwy all enwi gig nodedig yn ein hardal yn ddiweddar?

Ers hynny, mae gigs yn ffynnu yn ein tref agosaf, ac mae o leiaf dau leoliad gwahanol yno'n cynnal gigs llwyddiannus yn rheolaidd yn y cyfnodau prysuraf. Rwy'n deall mai dim ond ychydig o filltiroedd sydd yn rhaid teithio yno, ond roedd yn braf meddwl, unwaith, eu bod nhw'n edrych tua'r ffordd yma am ysbrydoliaeth. Er mwyn creu 'sîn' leol, fel un oedd yn bodoli'n honedig ym Methesda yn yr wythdegau, nid ffurfio grwpiau yn unig sy'n cyflawni'r nod. Mae'n rhaid cael rhwydwaith leol o leoliadau, cyhoeddiadau cyson (siawns y cawn ni hawlio'r golofn hon o'r Eco fel un o'r fath, ac mae digon o gyfleoedd i wneud hynny yn oes y rhyngryd!), a'r hyder hunangynhaliol hwnnw sydd yn creu sîn leol, i fwydo'r sîn genedlaethol yn ei dro.

Felly – ga i erfyn, yn bersonol, ar ddarpar reolydd y Bedol i wneud yn siwr bod y genhedlaeth nesaf yn cael yr un cyfle â ni i ddod a gerddoriaeth fyw i Fethel? Beth am i chi, ddarllenwyr, geisio cysylltu â'ch tafarndai lleol a chynnig rhoi cymorth gyda threfnu gig? Gethin Griffiths,

I ddarllen mwy am y sin gerddoriaeth Gymraeg ewch i wefan sonamsin.cymru

Gwrachod Cymru

Anna George

Yn blentyn, roeddwn i wrth fy modd â chymeriadau hudolus Gwlad y Rwla; Rwdlan, Rala Rwdins a Cheridwen. Roedd byd dychmygol Angharad Tomos i blant yn athrylithgar, ac er nad oeddwn i'n bwyta llyfrau fel Ceridwen, roeddwn i'n sicr yn llyncu'r straeon yma. Dyna egin fy niddordeb mewn hanes gwrachod yng Nghymru; o ddarllen am wrachod mytholegol fel Ceridwen yn Chwedl Taliesin, i ymddiddori'n hanes y gwrachod diniwed gafodd eu herlid yng Nghymru yn y Cyfnod Modern Cynnar. Faint o wrachod oedd yn byw ym mro'r Eco tybed, straeon am bobl a gredai iddynt gael eu mellithio gan wrach, ac a fu achosion o erlid?

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn dweud mai ystyr gwrach yw 'hen wraig' neu 'wraig oedrannus hagr'. Blaenoriaethir yr ystyron yma dros hen eiriau eraill am wrach sef 'gwiddon' a 'dewines'. Wrth gwrs, y gair 'gwiddon' ydy tarddiad y gair 'gwyddoniaeth'; merched gwybodus nid rhai dieflig oedd sawl gwrach yn y bon!

Gwrach fytholegol amlwg yw Ceridwen yn Chwedl Taliesin, ac roedd hi'n arbenigwraig mewn tair celfyddyd, sef 'hud, witshkrafft a sossri'. Ond roedd Ceridwen hefyd yn wrach wen oherwydd ei dealltwriaeth o berlysiâu a phlanhigion llesol. Hi wrth gwrs yw ein duwies awen.

Doedd dim drygioni yng nghymeriad Ceridwen mewn gwirionedd, yn wahanol i wrachod Caer Loyw yn chwedl Peredur fab Efracw. Yn y chwedl, mae hen wraig yn hybysu Peredur fod naw gwiddon wedi difa ei thiriogaeth. Down i ddeall hefyd fod y gwrachod wedi lladd cefnder Peredur, a gwneud ei ewythr yn gloff. Er mwyn dial, mae Peredur yn anfon neges at Arthur ac yn ymosod ar y gwrachod. Peredur sy'n ennill y dydd wrth iddo lwyddo i ladd gwrachod Caer Loyw i gyd yn y diwedd.

Roedd dynion a merched hysbys neu yn Saesneg, cunning folk, yn broffesiwn yng Nghymru a gweddill gwledydd Prydain yn yr Oesoedd Canol. Chwaraesant ran bwysig yn eu cymunedau hyd nes dechrau'r ugeinfed ganrif. Aeth dynion a merched atynt er mwyn derbyn cyngor, meddyginiaeth lysieuol, swynion caru, er mwyn cael dweud eu ffortiwn a

llu o bethau eraill. Roeddent hefyd yn ymddiddori mewn seryddiaeth, ac yn dweud eu bod yn medru cael gwared o ysbrydion drwg. Roedd y merched hyn yn fydwragedd yn aml iawn. Ni welwyd dim yn ddieflig yn y proffesiwn hysbys. Ond daeth witshgrafft yn benodol, yn gysylltiedig â phwerau dieflig. Nid peth newydd i'r Oesoedd Canol Hwyr a'r Cyfnod Modern Cynnar oedd credoau paganauidd mewn pwerau dieflig gwrachod. Roedd credoau felly cyn hyned â hanes dynoliaeth, ac nid o reidrydd yn perthyn i Brydain na hyd yn oed Ewrop. Ond, yn yr Oesoedd Canol Hwyr daeth y cysyniad Ewropeaidd fod y wrach yn rhoi ei henaid i'r diafol. Daeth hyn ag ystyr newydd i witshgrafft wrth i witshgrafft ddod yn heresi Cristnogol, y pechod gwaethaf un. Daeth witshgrafft yn drosedd ddeddfwriaethol mewn cyfres o statudau yng Nghymru a Lloegr yn 1542, 1563 ac 1604. Diddymwyd y ddeddf olaf yn 1736.

Dylid nodi nad oedd y cyfnod erlid gwrachod yng Nghymru yr un mor gythryblus ag oedd yn Lloegr. Ni fu helfa gwrachod yng Nghymru fel yn Lloegr yn y Cyfnod Modern Cynnar, ac roedd yr erlyniadau yn isel o gymharu â Lloegr. Gwen Ellis o Landyrnog oedd y ferch gyntaf a gafodd ei chyhuddo a'i dienyddio o gyhuddiadau witshgrafft yng Nghymru. Cafodd ei dienyddio yn 1594. Galwai ei hun yn iachawraig, a chafodd ei chyhuddo o achosi gwallgofrwydd plentyn ac am lofruddio dyn gwael a fu farw ar ôl cael ei drin gan gyfaredd (charm) ysgrifenedig Gwen. Cafodd ei chyhuddo hefyd o feddu ar natur ddialgar, a'r cyfan oll yn gysylltiedig â witshgrafft.

Ofergoeliaeth fu'n gyfrifol am lawer o'r credoau am bwerau gwrachod yng Nghymru. Dywedir mewn erthygl o'r enw 'Diffygion y Cymeriad Cymreig' yn Y Traethodydd cyn hwyrdd â'r flwyddyn 1898 fod 'Ofergoledd yn wendid lled gyffredinol yn ein tir.'

Os oes gan unrhyw un straeon am wrachod yn llechu ym mhentrefi neu ar gyrion godre'r Wyddfa, cysylltwch â mi ar bob cyfrif! (annagwenllian@icloud.com)

Lluniau'r Wyddfa



Dyma fwy o luniau Gareth Pritchard. Mae'n dangos ymwelwyr ar y garnedd ar gopa'r mynydd. Ond beth tybed yw'r golofn bigfain sydd fymryn islaw'r garnedd? Oes rhywun a syniad?

Y 2au Walcott

Bu dau Walcott yn f'oed addewid i,
 Clyde oedd y cyntaf, cawr – fatiwr y llain,
 un o'r tri W's enwog o'r Caribî
 a Ramadin a'r troellwr Valentine!
 Yn y pumdegau, Clyde a waldiodd hwyl
 i'r hen gêm sidêt, rhoi'i dîm ar frig
 timau byd criced, efo'i hysbryd gŵyl
 i'w chwarae 'calipsoaidd' a di-ddig...
 Nes at ein canrif ni daeth Derek – hwn
 oedd gronclwr mabinogi'i hil a'n rhawd,
 bardd St Lucas – fel "Omeros" mi wn,
 dramodwr a pheintiwr – a heriwr ffawd...
 Nawr mae wedi mynd – ond cwestiwn a dardd
 effaith p'run erys – y batiwr neu'r bardd?

Norman Closs

Ffair Haf – cyfle i gefnogi canolfan leol



Bydd Pwyllgor Anabl Merched y Wawr Rhanbarth Arfon yn cynnal eu Ffair Haf flynyddol yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon ar fore Gwener, Mehefin 9fed am 10 o'r gloch y bore.

Dyma'r unig bwyllgor o'i fath yng Nghymru bellach a thros y blynyddoedd mae wedi codi arian ar gyfer amrywiaeth eang o achosion ac elusennau lleol.

Eleni bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at Ganolfan Heneiddio'n Dda, Ardal Bontnewydd (Age Cymru Gwynedd a Môn). Yn ogystal â threfnu'r Ffair, mae aelodau'r pwyllgor eisoes wedi cynnal Distawrwydd Noddedig ym mis Mawrth a'r gobaith yw y bydd modd ychwanegu'n helaeth at yr hyn a gasglwyd bryd hynny drwy gyfrwng y Ffair.

Dewch yn llu i gefnogi! Cewch groeso arbennig!

"RYDYM ANGEN MWY O
 FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



www.fframia.com

FFRAMIA
 Parc Padarn Llanberis
 (01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
 William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
 ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
 Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
 Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
 Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Ble roedd Tŷ Conglog?

Mewn traethawd ar 'Hanes ardal Bethel yn 1872' rhestrir rhai o anheddau'r ardal. Nid oes enw awdur wrth y traethawd, a rhaid tybio mai tua 1872 yr ysgrifennwyd yr hanes. Mae'r tai a enwir wedi eu lleoli ym mhlwyfi Llanddeiniolen a Llanfair is Gaer, er nad yw'r awdur yn nodi ym mha blwyf y mae pob annedd. Un o'r tai a enwir yw Tŷ Conglog. Fel hyn y caiff ei ddisgrifio: "Bu yn dyddyn ar ei ben ei hun ar ddechrau'r ganrif (hynny yw, dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg). Ei berchen y pryd hynny oedd Syr Watcyn Wynne, yr hwn a'i gwerthodd i John Griffith, Llanfair, a chysylltodd beth ohono â'r Greuor a Chefn Cynrig. Ond nid oes yr olion lleiaf i'w weled ohonno heddiw."

Mae'n amlwg o'r dyfyniad uchod fod tir y tyddyn wedi ei rannu rhwng dwy fferm fechan ym mhlwyf Llanfair is Gaer, gyferbyn ac ardal Penrhos yn rhannau isaf pentref Bethel heddiw. Cyn dechrau chwilio drwy gofnodion plwyf Llanfair is Gaer, rhaid oedd edrych ar y Cyfrifiad cyntaf yn 1841 – ond does dim sôn am annedd o'r enw Tŷ Conglog ynddo. Mae'n amlwg felly fod y tŷ wedi peidio â bod fel tŷ annedd erbyn hynny. Ond o astudio Map Degwm y plwyf, dyddiedig 1839, mae'r enw Tyddyn Conglog (sic) wedi ei ddangos yn eglur tua hanner ffordd rhwng fferm y Greuor a Chefn Cynrig. Mae'r caeau yn y plwyf i gyd wedi eu rhifo, ac o astudio'u henwau gwelir fod dau gae wedi eu henwi yn 'weirglodd Tŷ Conglog' – a hynny yn ymyl lleoliad y tyddyn. Ond, mae'r rhif sy'n dangos lleoliad Tŷ Conglog yn cael ei alw yn 'berllan'. Ydi hyn yn awgrymu fod y tŷ wedi peidio bod rhwng cyfnod arolwg y mapio a'r cyhoeddi?

Yn rhestrau caeau'r Map Degwm mae'r perchennog yn cael ei enwi fel John Griffith Watkins Ysw. Roedd hwn yn byw ym Mhlas Llanfair. Mae'r enw a'r dyddiadau rhwng 1839 ac 1841 yn awgrymu fod yr hyn a ysgrifennodd awdur Traethawd 1872 yn ffeithiol gywir. Ond – oes, mae 'ond' eto – mae'r caeau yn yr ardal rhwng Cefn Cynrig a'r Greuor wedi eu dangos fel tri daliad, nid dau. Gallwn anwybyddu am y tro, gaeau Greuor a'r tenant. Mae'r ddau 'ddaliad' arall, sef Cefn Cynrig a 'di-enw' yn cael eu dal gan berson o'r enw Robert Thomas. Ai dau Robert Thomas gwahanol sydd yma, yntau'r un person ydyw?

Yng Nghyfrifiad 1841, Robert Thomas, ei wraig, Mary, ac wyth o blant sy'n byw yng Nghewn Cynrig. Does dim Robert Thomas arall yn yr ardal hon. Ond yr oedd dau Robert Thomas, a chredaf mai tad a mab oeddent. Yng Nghofrestr Claddu Llanfair is Gaer ceir cofnod o gladdedigaeth Robert Thomas, Cefn Cynrig yn 1833 yn 66 oed. Ddwy flynedd cyn y farwolaeth roedd Robert a Mary

Thomas yn bedyddio plentyn o Dŷ Conglog. Flwyddyn wedi'r farwolaeth roedd Robert a Mary yn bedyddio plentyn arall, y tro hwn o Gefn Cynrig, sef Robert arall (y drydedd cenhedlaeth). Ac yn 1836 cofnodir claddedigaeth gweddw Robert Thomas yr hynaf – o Dŷ Conglog. Mae'n ymddangos fod Robert a Mary yn byw yn Nhŷ Conglog hyd farwolaeth y tad yn 1833 ac iddynt symud i'r cartref – Cefn Cynrig, wedyn, tra symudodd y fam weddw o Gefn Cynrig i Dŷ Conglog.

A dyna sy'n cymhlethu'r holl hanes gan mai Mary hefyd oedd enw gwraig Robert Thomas yr hynaf. Ceir cadarnhad o hyn ar garreg fedd ym mynwent Llanfair is Gaer sy'n coffau dau fab i "Robert a Mary Thomas, Cefn Cynrig", sef John a fu farw'n 22ain oed yn 1816 a Thomas a fu farw'n 32ain oed yn 1823 "on his last voyage." Mae awgrym yma mai morwr oedd Thomas, ond hyd yma, ni fedrais ddarganfod dim o'i hanes. Credaf fod Robert, Tŷ Conglog a Chefn Cynrig wedyn, yn frawd i John a Thomas.

Roedd teulu gyda'r cyfenw Thomas yn Nhŷ Conglog cyn hyn hefyd; efallai mai'r un teulu oeddent. Ceir hanes Ann Thomas, Tŷ Conglog yng nghyfrifol William Hopley ar hanes Methodistiaeth y fro. Bu'n aelod yn Llanrug yn gynnar iawn, ac yna yn Nhan y Maes/Brynmennai yn ddiweddarach. Efallai mai hi oedd gwraig neu chwaer Hugh Thomas, a gladdwyd yn 1821 yn 73 oed "late of Tŷ Conglog" yn ôl cofrestr y plwyf. O bosib mai tua dechrau'r 1820'au felly, yn dilyn marwolaeth Hugh Thomas, y symudodd Robert Thomas a'i briod, Mary i Dŷ Conglog, ac i'r tyddyn ynghyd â Chefn Cynrig gael eu ffermio fel uned deuluol.

Mae'n amlwg fod Tŷ Conglog wedi peidio â bod yn dŷ annedd rywdro rhwng 1836 (marwolaeth Mary, gweddw Robert Thomas yr hynaf) a 1839 (yr enw ar y Map Degwm ond nid ar y rhestrau caeau). Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach nid oedd "yr olion lleiaf ohonno i'w gweled." Mae'n od nad oedd adfeilion yr hen fwthyn i'w gweld yn 1872. Beth tybed a ddigwyddodd i'r cerrig?

Crach y Bwch. Tra'n chwilio drwy Fap Degwm Llanfair is Gaer deuthum ar draws dau gae o'r enw 'Crach y bwch' ar ochr orllewinol y dyffryn bychan sy'n disgyn o ardal Y Wern, Y Felinheli i lawr at gefn cartref Cerrig yr Afon. Yn ei llyfr hynod ddiddorol "Hen Enwau o Arfon, Llyn ac Eifionydd", mae Glenda Carr yn trafod y llysenw hwn dan yr enw Muriau Tegwared ap Hywel. Darllenwch – a phrynwch y gyfrol am yr eglurhad!

Côr Ysgol Brynrefail.



Blawd “Snowdon Flake”

Cwmni o Fangor oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r blawd a elwid yn “Snowdon Flake”. Roedd melin Thomas Lewis a'i Feibion wedi ei lleoli ar gornel Stryd y Deon a Ffordd y Garth (gyferbyn â Storfa Aldi heddiw). Sefydlwyd y felin tua 1870, a'r hyn a'i gwnai'n wahanol oedd y ffaith mai melin stêm oedd hon, ac erbyn tua 1885 roedd yn gweithio gyda rowleri yn hytrach na meini melin. Roedd Thomas Lewis yn ddydd busnes llwyddiannus, ac yn cadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf. Mynychodd Arddangosfa



Peiriannau Melinau yn Cincinnatti yn 1880, ac mae'n debyg mai dyna roes y syniad iddo i ddechrau defnyddio rowleri i falu'r grawn. Yn 1885 gallai falu llond saith sach o rawn fesul awr. Roedd gan y cwmni dir a storfa ym mhorthladd Hirael, a deuai'r grawn yno mewn llongau o Lerpwl. Mae'n ymddangos fod mewnforio grawn o Lerpwl i Fangor yn rhatach o gryn dipyn na phrynu blawd. Byddai'r cwmni hefyd yn prynu gwenith lleol o ffermydd Môn ac yn ei gymysgu efo'r grawn a ddeuai o dramor. Roedd pwmp dŵr yn y felin yn tynnu dŵr o afon Adda er mwyn cynhyrchu stêm.

“Snowdon Flake” a “Snow White” oedd y ddau fath gorau o flawd a gai ei gynhyrchu ganddynt, a honnai Thomas Lewis iddynt gael eu henwi felly oherwydd fod y blawd mor bur â'r bluen eira a ddisgynnai ar gopa'r Wyddfa! Y purdeb hwn yn eu blawd oedd y safon yr ymgyrchai'r cwmni tuag ato. Mae'n amlwg fod gwirionedd yn ei honiad, oherwydd yn 1892 enillodd y

“Snowdon Flake” y wobr gyntaf a medal aur mewn Arddangosfa Melinyddion yn Llundain.

Ond erbyn 1912 roedd y cwmni yn fethdalwyr, a diflannodd ‘Blawd yr Wyddfa’ oddi ar y farchnad.

Gyda diolch hefyd i Dafydd Guto a'm cyfeiriodd at erthygl ar y cwmni a'r felin yn Country Quest, fis Mai 1984. Mae'r erthygl honno gan Graham Phillips-Lewis yn cyfeirio at y ffaith fod y cwmni yn berchen nifer o longau a oedd yn gyfrifol am gario grawn o Lerpwl i Fangor, ac am gario blawd a bwyd gwartheg o Fangor i borthladdoedd gogledd Cymru. Roedd Thomas Lewis hefyd yn bridio ei geffylau ei hun ar gyfer y gwaith trwm o dynnu troliau cario blawdiach i wahanol ardaloedd gwledig. Roedd y ceffylau'n pori ar y lleiniau gwyrdd islaw'r Brifysgol. Yn ôl barn yr awdur, y Rhyfel Mawr fu'n gyfrifol am ddirywiad y cwmni, a hynny o ganlyniad i golli cymaint o'r dynion yr oedd eu hangen i gynnal y gwaith.

Côr Ysgol Brynrefail.

O'r diwedd daeth ymateb! A hynny o fwy nac un lle.

Anfonodd Gwilym Roberts, Penarth (Llanberis gynt) sylwadau ac enwau, er nad yw'n hollol sicr o bawb sydd yn y llun. Meddai: “Hoffais yn fawr weld llun o Gôr Ysgol Brynrefail a ymddangosodd yn yr Eco yn ddiweddar. Tynnwyd y llun o gwmpas 1977 ac os dwi'n cofio yn iawn rhoddwyd y Côr at ei gilydd er mwyn cyngerdd yn yr Ysgol. Dwi'n cofio dysgu emyn Pantyfedwen a hefyd Ave Verum (fel côr pedwar llais) ”.

Daeth galwad ffôn hefyd gan un o'r athrawon sydd yn y llun, sef Mr R.T.Jones, a fu'n dysgu Gwyddoniaeth a Mathemateg yn yr ysgol. Credai yntau fod y llun wedi ei dynnu cyn 1978, oherwydd roedd Mr Haynes, athro Saesneg, wedi ymadael â'r ysgol yn y flwyddyn honno. Ond roedd yn tybio mai côr pedwar llais wedi ei ffurfio ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Bentref Llanrug ydyw.

Un arall o gyn athrawon yr ysgol a gysylltodd oedd Eirwyn Morris, sydd hefyd yn y llun. Meddai:

“Yr ydwi'n cofio'r achlysur ond wedi anghofio llawer o'r manylion! Fe benderfynodd Gwyndaf Parry fod angen perfformio rhywbeth o sylwedd yn yr ysgol ac fe ddewisodd un offeren gan Schubert.

'Fedra'i ddim cofio pa un. Fe fu'r perfformiad, yn cynnwys unawdwyr yn bur lewyrchus. Yr oeddwn i ar y staff ac yn y côr ac yn medru rhoi enwau'r staff, ond dim ond llond dwrn o enwau'r disgyblion sy'n dod i'r côf.”

Mae Gwilym Roberts yn cynnig yr enwau canlynol, ac yn ymddiheuro am fethu cofio rhai enwau'n llawn!

Cefn o'r chwith i'r dde.

Mr Evie Roberts (Arlunio), Mr Gwyndaf Parry (Cerdd), Mr J Jones, Mr Meirion W. Jones, Bryn Jones, Dewi Williams, Mr D. Evans (Maths), Mr R.T. Jones (Maths), Mr Morris (Biology), Mr Haynes (Saesneg), ? Williams o Ddeiniolen.

Ail res a'r rhes flaen o'r chwith i'r dde

Methu gweld yn glir pwy sydd ar y pen ?, Annette Wyn Parry, Eira Wyn, (methu cofio'r enw o Llanrug), Delyth Cwm, Mrs Mary Wyn Jones, Nest o Bethel, Carol Anne, Rhian Cadwaladr, Eleri Jones, Shirley Owen, Alwyn Peris, Delyth (Ceunant), Elaine Brailsford, Anwen Llanrug, Gwilym Roberts, Bethan (Globe), Nia Bryan, Julie Clarke.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned
Llanddeiniolen

Derbyniwyd llythyr ymddiswyddiad gan Rachel Williams, a diolchwyd iddi am ei gwaith.

Cofnodion cyfarfod 7fed Chwefror

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau bydd y 2 fin halen sydd wedi diflannu yn Rhiwlas yn cael eu hadnewyddu.

Ffordd Racca i Clwt y Bont – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau mai darn o'r ffordd yn unig fydd yn cael ei ail - wynebu yn y flwyddyn gyllidol nesaf. Er eu bod yn cytuno nad ydy'r ffordd mewn cyflwr delfrydol, nid oes cyllideb ar gael yn dilyn toriadau llym. Mae'r gwaith sydd wedi ei raglennu ar y ffordd yn debygol o gostio oddeutu £30,000, ond £200,000 o gyllideb sydd gan yr adran i wario ar ffyrdd Arfon i gyd, felly disgwyl fydd rhaid.

Gwaith Lon A4086 Brynrefail – Lon ar gyfer beicwyr a cherddwyr sydd yn cael ei wneud gydag arian grant yn arbennig i'r perwyl hyn. Mae hwn yn gynllun arbennig, a does dim posib gwario yr arian ar ddim byd arall. Mae'r cynllun wedi cael ei roi ar waith er sawl blwyddyn, a hyn o bosib yn dilyn llawer o ddamweiniau difrifol ar y ffordd hon.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Eglwys Santes Helen, Penisarwaun – Dymchwel Neuadd blwyf gymunedol bresennol a chodi Neuadd blwyf gymunedol deulawr newydd ynghlwm i'r eglwys bresennol.

Castell, Pentir - Rhybudd ymlaen llaw i godi adeilad amaethyddol.

Llys, Brynrefail – Cynllun Diwygiedig –

Garej Beran – Cais am ganiatad i arddangos 12 car yn lle 6.

Blue Peris – Gwaith i goed mewn ardal sy'n destun gorchymyn gwarchod coed.

Ymgynghoriad i'r Cynllun Datblygu Lleol

Cyfeiriwyd at newid mewn cymal (Arfarniad Cynladwyedd: Adroddiad Adendwm, PS1,t.33)

Cynigiwyd ein bod yn galw ar Gyngor Gwynedd i beidio â dileu'r cymal " Gwrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned".

Derbyniwyd y cais yn unfrydol a phenderfynwyd ysgrifennu cais at Gyngor Gwynedd yn cyfleu hyn, ynghyd a copi I'r Cynghorydd Dafydd Meurig.

Llythyr i Gymdeithasau/Etholiadau

Gyda niferoedd o seddi gwag ar y cyngor bellach, penderfynwyd gyrru llythyr i bob cymdeithas sydd yn derbyn cymorth ariannol gan y cyngor yn yr ardal. Bydd hyn yn tynnu sylw fod etholiadau Cyngor Cymuned ym mis Mai, a gyda braslun o waith Cynghorydd Cymunedol, gan obeithio denu diddordeb i lenwi'r seddi gwag.

FFurflenni wedi eu didoli i'r cynghorwyr.

O gwmpas y Bwrdd

Mae materion yn codi yn aml, lle nad yw'r cynghorwyr cymunedol yn gwybod dim amdanynt. Dymunai'r cynghorwyr glywed gan bobl eu hardaloedd am unrhyw broblem, neu ryw beth sydd yn peru trafferth i gymdogion. Does dim posib i gynghorwyr wneud dim i helpu os nad ydynt yn ymwybodol fod trafferthion neu broblemau yn y lle cyntaf. Ewch i gael sgwrs gyda'ch cynghorwyr.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug
a Chwm y Glo

Cynhaliwyd ar yr 21ain o Fawrth 2017.

Ceisiadau Cynllunio

Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

- Codi sied amaethyddol ar dir tu cefn i 1 Tai Trefor, Ceunant, Llanrug.
- Codi estyniad deulawr cefn ar 4 Minffordd Terrace, Llanrug.
- Diwygio amod o ganiatad cynllun tir cyfochrog Parc Isaf, Llanrug, er mwyn ail-ddylunio'r fynedfa i'r safle (ond i gysylltu â Chyngor Gwynedd i fynegi pryder am ddiffyg palmant o flaen y tai).

Cytundebau torri gwair 2017-18

- Y Fynwent - Mr Wyn Lewis, Caernarfon
- Llwybrau cyhoeddus - Huw a Dewi Owen, Llanrug
- Meysydd chwarae Nant y Glyn a Phwll Moelyn, Llanrug - Mr Patrick McGuinness, Llanrug.

Y Fynwent

Adroddwyd bod y fynwent mewn cyflwr da ar ôl y gaeaf ac nid oedd materion mawr angen sylw. Trefnwyd i drwsio tap y tanc dŵr a thorri'r gwair cyn Sul y Blodau.

Llwybrau cyhoeddus

Trafodwyd digwyddiad anffortunos ychydig yn ôl pryd yr ymosodwyd ar berson ar ystâd Glanffynnon gan gŵn oddi ar fferm gyfagos. Mynegwyd pryder am ddiogelwch cerddwyr ar y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd drwy'r fferm a chyfeiriwyd y mater at Swyddog Llwybrau'r Cyngor Sir gan ofyn iddo ymweld â'r llwybr. Hyd yma, ni dderbyniwyd unrhyw adborth gan y Swyddog.

Penderfynwyd i gysylltu â'r Swyddog Llwybrau i geisio diweddariad ac i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Arolygon Etholiadau Gwynedd

Yn dilyn trafod yr opsiynau, penderfynwyd mai'r opsiwn a ffafrir gan Gyngor Cymuned Llanrug a Cwm y Glo oedd glynu at y drefn bresennol, sef un Cynghorydd dros Llanrug ac un arall dros Cwm y Glo ond awgrymu fod cymuned Brynrefail yn dod yn gyfrifoldeb i'r aelod dros Cwm y Glo er mwyn gwneud maint yr etholaeth yn dderbyniol i'r Comisiwn Ffiniau. Y Clerc i gysylltu â'r Comisiwn Ffiniau a Chyngor Gwynedd yn cyfleu barn y Cyngor. Cais am focsys blodau oddi flaen ystâd Talybont, Llanrug ac ystyried strategaeth tacluso pentrefi Cwm y Glo a Llanrug Adroddwyd fod trigolion o ystâd Talybont wedi bod yn trafod gwahanol opsiynau sut i dacluso mynediad i'r ystâd drwy atal cerbydau rhag mynd ar y gwair ar ymyl y palmant. Roedd Cyngor Gwynedd wedi argymhell y byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu darparu bocsys blodau ar y gwair ac 'roedd un person lleol wedi cytuno i gynnal a chadw'r bocsys.

Oherwydd na thrafodwyd yr opsiynau gyda'r Cyngor Cymuned byddai'r Cyngor yn gwerthfawrogi cyfle i'w trafod gyda'r Swyddog priodol o Gyngor Gwynedd. Hefyd gan nad oedd cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer cynllun o'r fath ni ellir ymrwymo i wariant heb fod y Cyngor neu Bwyllgor gyda hawliau dirprwyedig yn cytuno. Yn yr achos yma, nid oedd hyn yn bod.

Penderfynwyd:

- Peidio â chytuno i ariannu'r bocsys blodau.
- Cysylltu â Chyngor Gwynedd i drefnu i Swyddog gyfarfod aelodau o'r Cyngor Cymuned i drafod y sefyllfa.
- Fod unrhyw waith cyffelyb yn y pentref yn rhan o gynllun strategaeth y Cyngor o dacluso'r pentref.
- Adroddwyd y byddai creu strategaeth cyffelyb yn fater i'r Cyngor newydd a'i ymrwymiad cymunedol.
- Y Clerc i gyfleu'r wybodaeth yma i'r Cynghorydd Sir.

Sefyllfa ariannol y Cyngor

Adroddwyd fod y sefyllfa ariannol yn argyhoeddi i fod yn iach iawn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sydd yn gorffen ar 31 o Fawrth 2017 ond y byddai costau ychwanegol yn cynnwys gwariant ar finiau baw cŵn a biniau halen yn codi yn y flwyddyn newydd.

Etholiadau Cyngor Gwynedd

Yn dilyn y gwahoddiad yn rhifyn Ebrill o'r "Eco", dyma'r ymgeiswyr yng ngwahanol wardiau'r fro a ddaeth i gysylltiad. Mae rhai wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Mae eraill yn wynebu etholiad. Does ond gobeithio y bydd etholwyr y wardiau hynny yn troi allan i bleidleisio – i ba bynnag ymgeisydd fydd yn mynd a'u bryd.



Berwyn Parry Jones (Plaid Cymru) Cwm y Glo

Mae'n fraint cael cynnig fy hun fel ymgeisydd yn etholiad Cyngor Gwynedd i gynrychioli ward Cwm y Glo, sydd yn cynnwys Tanycoed, Ceunant a Phontrug. Yn y gorffennol bŵm yn Gyngorydd ar Gyngor Cymuned Llanrug a Cwm y Glo ac yn lywodraethwr ar Ysgol Gynradd Llanrug. Fel rhan o'm gyrfa bŵm hefyd yn Bennaeth Tai Cyngor Gwynedd.

Fel cynghorydd, fy mlaenoriaeth fyddai ceisio denu gwaith i'r ardal er mwyn rhoi dyfodol i'n pobol ifanc yn eu cynefin. Buaswn hefyd yn ceisio sicrhau mwy o dai fforddiadwy yn yr ardal, - yn dai i'w prynu yn ogystal â thai ar rent rhesymol. Mae yn amser heriol i'r Cynghorau i gyd ar ôl blynyddoedd o dorri cyllidebau. Byddwn yn ceisio sicrhau bod canran deg o unrhyw wariant yn cael ei wneud i hybu ward Cwm y Glo. Buaswn hefyd yn ceisio sicrhau fod problemau dydd i ddydd y ward yn cael ymateb prydlon – boed yn broblemau sbwriel, tyllau yn y ffordd ac yn y blaen.

Buasai yn fraint cael cynrychioli holl drigolion Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd yn y cyfnod heriol yma.



Mae CHARLES WYN JONES (Plaid Cymru) wedi ei ethol yn ddiwrthwynebiad dros Ward Llanrug.

Dyweddodd: "Unwaith eto rwyf wedi derbyn yr anrhydedd o gael fy ethol i gynrychioli fy mhentref ar Gyngor Gwynedd am dymor arall.

"Hoffwn ddiolch i bawb am y gefnogaeth rwyf wedi ei derbyn yn ystod y 21 mlynedd diwethaf ac

am yr hyder mae fy nghyd bentrefwyr wedi dangos ynof drwy fy ethol yn ddiwrthwynebiad yn yr etholiad hwn.

"Rwy'n addo y byddaf yn parhau i wasanaethu yn gyfartal a theg fuddiannau pawb ac y byddaf yn egnïol ac yn gydwybodol yn fy nghynrychiolaeth o'r ward."

CharlesWynJones@gwynedd.llyw.cymru

Ffôn: 01286 676733

Dwyros, Ffordd Glanffynnon, Llanrug LL55 4PP



Gareth W. Griffiths, Bethel.

'Rwyf wedi byw ym Methel ers dros 16 mlynedd, wedi priodi â Manon sy'n athrawes ac mae gennym dri o blant. Maent wedi eu dwyn i fyny yn y pentref ac wedi mynychu ysgolion Bethel a Brynrefail.

Fy mlaenoriaethau fel ymgeisydd dros Blaid Cymru yw:

Addysg – sicrhau bod ieuencid y pentref yn derbyn yr addysg orau, drwy gefnogi y prifathrawon a'r staff.

Iechyd – Hybu cydweithio i sicrhau body trigolion mwyaf bregus yn derbyn cymorth addas yn eu cartrefi, gan gadarnhau eu lle fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned.

Cynllunio – Wrth gefnogi Strategaeth Cyflenwad Tai y Cyngor ac wrth ystyried tai fforddiadwy, byddaf yn gweithio i sicrhau bod unrhyw gynlluniau yn gynaliadwy gan ystyried adnoddau presennol, ac yn gweddu i'r amgylchedd.

Yr Iaith - Cyn ymddeol, cefais y fraint o arwain trafodaethau ar ran y tri Gwasanaeth Tân yng Nghymru gyda'r Comisiynydd Iaith a'i Swyddogion. Ein bwriad oedd cyflwyno gwasanaeth safonol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydymffurfio gyda'r Safonau Iaith ar draws ein gwlad. Byddwn yn defnyddio fy mhrofiad i arsylwi argaeledd gwasanaeth ddwyieithog cyflawn yn y tri maes uchod.

Byddaf yn cydweithredu gyda'r Cyngor Cymuned er budd yr ardal. Fel cyn aelod o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru byddwn yn pwysu am gydweithio rhwng yr Heddlu, Cyngor Gwynedd a thrigolion y pentref i gadw lefelau trosedd yn isel.

'Rwyf yn ymfalchïo yn fy hanes o wirfoddoli ers arwain Aelwyd yr Urdd Bro Goronwy yn ddeunaw oed, ac ers ymgartrefu yma, mi fues yn gadeirydd ar Gymdeithas Rieny Athrawon Ysgol Bethel am gyfnod. Hefyd, roeddwn yn aelod o bwyllgor Clwb Pêl-droed Ieuencid Bethel am dros 10 mlynedd.

Nawr 'rwyf wedi ymddeol, rwyf mewn sefyllfa i roi fy amser i sefydliadau'r pentref mewn ffyrdd ymarferol, neu os dymunir, yn ymgynghorol.

Rwy'n addo gweithio yn ddiflino i gefnogi'r trigolion, y Cyngor Cymuned, ein busnesau a holl gymdeithasau'r pentref. Wrth gydweithio â'n gilydd, gallwn sicrhau ardal ddiogel a llewyrchus.



Sion Jones, Bethel.

Ers 2012 rydw i wedi bod yn gweithio gyda grwpiau y gymuned i sicrhau £540,000 o grantiau cyfalaf er mwyn datblygu ein cymuned. Mae hynny yn cynnwys ail adeiladu Neuadd Goffa Bethel yn 2013, gwella Cae Pel Droed Bethel yn ystod 2016, cychwyn a rhedeg Gwyl Bethel, Gwyl Fwyd Bethel, arian i ddatblygu'r Cae Chwarae, Clwb Bowls, Clwb Snwcer a nifer o grwpiau eraill. Rhwng 2002

a 2012, adroddwyd £0 arian grant i Fethel, nid oes esgus i hynny.

Hefyd, rwyf wedi arwain ymgyrch i newid ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon roedd am hollti cymunedau Bethel a Felinheli, mi fyddai yn sicrhau y cytundebau gorau i Fethel yn ystod trafodaethau pellach gyda'r ffordd osgoi yn mis Awst 2017. Rwyf wedi cael trafodaethau agored gyda dyfodol cynllunio ym Methel, ac wedi gweithion galed er mwyn sicrhau bod synnwyr cyffredin gyda dyfodol cynllunio yn ein cymuned.

Rwyf ysgrifennydd y Clwb Pel Droed, Neuadd Goffa, Gwyl Bethel, Grwp Cae Chwarae, ac yn aelod o gorff Llywodraethol Ysgol Bethel a Ysgol Brynrefail.

Rwyf bwriadu parhau i weithion galed dros Bethel a Seion yn ystod y tymor nesaf, cyraedd fy nharged o £Miliwn o grantiau i'r gymuned, a parhau fel Cynghorydd llawn amser i rhoi y gwasanaeth gorau bosib - nid hwb i'r pensiwn ydy'r swydd yma.

Ers 2012 rydw i wedi bod yn gweithio gyda grwpiau y gymuned i sicrhau £540,000 o grantiau cyfalaf er mwyn datblygu ein cymuned. Mae hynny yn cynnwys ail adeiladu Neuadd Goffa Bethel yn 2013, gwella Cae Pel Droed Bethel yn ystod 2016, cychwyn a rhedeg Gwyl Bethel, Gwyl Fwyd Bethel, arian i ddatblygu'r Cae Chwarae, Clwb Bowls, Clwb Snwcer a nifer o grwpiau eraill. Rhwng 2002 a 2012, adroddwyd £0 arian grant i Fethel, nid oes esgus i hynny.

Hefyd, rwyf wedi arwain ymgyrch i newid ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon roedd am hollti cymunedau Bethel a Felinheli, mi fyddai yn sicrhau y cytundebau gorau i Fethel yn ystod trafodaethau pellach gyda'r ffordd osgoi yn mis Awst 2017. Rwyf wedi cael trafodaethau agored gyda dyfodol cynllunio ym Methel, ac wedi gweithion galed er mwyn sicrhau bod synnwyr cyffredin gyda dyfodol cynllunio yn ein cymuned.

Rwyf ysgrifennydd y Clwb Pel Droed, Neuadd Goffa, Gwyl Bethel, Grwp Cae Chwarae, ac yn aelod o gorff Llywodraethol Ysgol Bethel a Ysgol Brynrefail.

Rwyf bwriadu parhau i weithion galed dros Bethel a Seion yn ystod y tymor nesaf, cyraedd fy nharged o £Miliwn o grantiau i'r gymuned, a parhau fel Cynghorydd llawn amser i rhoi y gwasanaeth gorau bosib - nid hwb i'r pensiwn ydy'r swydd yma.



Mae Plaid Cymru wedi dewis Hefin Williams fel ymgeisydd dros ward Penisarwaun.

Meddai Hefin: "Dwi'n awyddus iawn i barhau a'r fraint o weithio dros drigolion yr ardal, gan wrando ar farn y bobl a rhoi'r cyfle i bawb gael dweud eu dweud. Dwi'n credu'n gryf bod yn rhaid i ni gydweithio'n lleol er mwyn sicrhau y gwasanaethau gorau bosibl i bobl yr ardal. "Drwy fod yn

aelod o dim mae modd cyflawni llawer mwy, drwy gydweithio gyda trigolion lleol, y Cyngor Cymuned, Cyngor Sir, Aelod Cynulliad a Aelod Seneddol. "Yn ystod y cyfnod arianol anodd sydd o'n blaenau, bydd angen i bawb gydweithio er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gorau ar gael i pawb yn y Sir." Profiad a Chefndir.

Mae Hefin yn adnabyddus yn lleol fel Cynghorydd Sir Ward Penisarwaun ers 5 mlynedd ac fel Cynghorydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen ers 30 mlynedd ac felly yn ymwybodol o broblemau Brynrefail, Penisarwaun a Rhiwlas.

Llywodraethwr Ysgol Brynrefail, Llywodraethwr Ysgol Gymuned Penisarwaun a cyn Llywodraethwr Ysgol Gynradd Rhiwlas pan gawsant Arolwg Estyn arbennig o dda.

Dŵr Cymru i atallifogydd rhwng Racca a Penisarwaun a gwaith carthffosiaeth Stablaau. Trigolion Bryntirion, Penisarwaun gael dychwelyd i'w tai CCG ar ôl 3 blynedd o drafferthion.

Ymateb i broblemau trigolion yr holl ardal, Brynrefail, Penisarwaun a Rhiwlas fel bo'r galw mewn cyfnod ariannol anodd iawn.

Blaenoriaethau Hefin

Cydweithio i sicrhau gwasanaeth addysg, iechyd, gofal, hamdden a phlismaona o'r radd flaenaf yn yr ardal.

Gweithio'n galed gyda busnesau lleol, ffermwyr a grwpiau twristiaeth gan hybu ymdrechion i greu gwaith.

Ysgogi gweithgareddau cymunedol.

Hybu adeiladu tai i bobl leol yng nghefn gwlad.

Ymateb prydlon i ymholiadau gan y trigolion gan y Cyngor Sir ac asantiaethau eraill. Cysylltwch hefinrhiwlas@gmail.com - 01248 352890 / 07922997592

Profedigaeth Anfonwn ein cydymdeimlad dwys i Dylan McCarter, 1 Ael y Bryn, yn ei brofedigaeth o golli ei fam.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth oedd: £30: (94) Mrs Elen Roberts, Bodrida; £20: (76) Mrs S.M. Parkinson, Gwynfa; £10: (274) Mr D.G. Davies, Bryn Teg.

Newid Aelwyd Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae yna dipyn o newid aelwyd wedi bod yn y pentref. Dymunwn yn dda i'r rhai sydd wedi symud oddi yma i ardal newydd a chrosawu y rhai sydd wedi dod yma i gartrefu ac i'r rhai sydd wedi newid aelwyd o fewn y pentref. Hyderwn y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Eisteddfod Bu'r Eisteddfod Bentref yn llwyddiannus gyda llawer o blant o dan 12 oed yn cystadlu a phob un, o'r rhai bach meithrin i'r rhai hynaf, wedi gwneud eu gwaith dysgu yn dda iawn. Diolch i staff yr ysgol a'r rhieni. Cafwyd dipyn o gystadlu hefyd rhwng tîm y Post a thîm Croesywaun yng nghyfarfod yr hwyr. Bydd adroddiad llawn o'r Eisteddfod yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cylch Meithrin Dymuna pwyllgor a staff y Cylch Meithrin ddiolch i bawb a gefnogodd yr Ocsiwn a gynhaliwyd yn Nhafarn Bryn Eirion a'r Helfa Wyau a gynhaliwyd yn y Ganolfan. Bu'r ddau weithgaredd yn rhai hwyliog a llwyddiannus iawn.

Llongyfarchiadau i Huw Emrys, Gwastadfaes, ar fod yn llwyddiannus yn Eisteddfod Cylch a Sir yr Urdd yn y

gystadleuaeth offerynnau chwyth. Dymunwn bob dymuniad da i ti yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddiwedd mis Mai, Huw.

Cyn-bentrefwraig Yn rhifyn y mis o Papur Dre, roedd yn dda gweld llun o Mrs Gweneirys Jones, Cartrefle gynt, a hanes ei diddordeb ym mudiad Merched y Wawr. Cofion cynnes atoch, Mrs Jones.

Dymuno'r Gorau Gyda hyn bydd tymor Arholiadau ysgol a choleg wrth y drws. Dymunwn yn dda i bob un fydd yn sefyll yr arholiadau eleni. Gwnewch eich gorau.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Tim Williams, Ty'n Ceunant, a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol, Tim.

Yn ystod y mis bu Mary, Llwyn Afon, yn dathlu cyrraedd ei phedwar ugain mlwydd oed. Llongyfarchiadau i chi, Mary, a phob dymuniad da. Gobeithio i chi fwynhau eich diwrnod.

Priodas Dydd Sadwrn y Pasg, bu priodas Gethin a Siân, sy'n byw yn Yr Hen Eglwys yma yn y Waun. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'w pâr ifanc ar eu diwrnod mawr.

Dymunwn yn dda i Mrs Hilda Williams, sydd wedi ymgartrefu dros dro yng Nghartref Preswyl Penisarwaun. Hyderwn yn fawr eich bod yn teimlo'n well ac yn cryfhau.

Pen-blwydd Priodas Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Edgar a Carys, Glyn Awel, a fu'n dathlu eu

Priodas Ruddem yn ystod y mis.

Babanod

Llongyfarchiadau i Roy ac Eirwen, Cynefin, ar ddod yn daid a nain i Idris Bashir, mab bach i Kailey eu merch a'i phriod Ben, brawd a ffrind i Noura Gwen, ei chwaer a Marwan Tomos, ei frawd.

Llongyfarchiadau i Beti Wyn Owen, Stad Croes y Waun ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Leila, i Gemma ac Ieuan, mab Beti.

Croeso Mawr i Anni Siôn, merch fach Heddu Gwynedd ac Iwan Siôn. Mae ei chwaer fawr, Mali Siôn, wedi gwirioni. Wyres fach newydd i John a Cadi a gor-wyres i Nain Nanhoron. Diolch am yr holl gyfarchion. Llongyfarchiadau ichi a mwynhewch gwmni y rhai bach.

Bedydd Yn ystod gwasanaeth arbennig yn Eglwys y Waun dydd Sul, Ebrill 9fed, gyda'r Parch Marcus W. Robinson yn gweinyddu a Gwenda Griffith wrth yr organ, bedyddiwyd Math Wyn, mab bach Beth ac Arron Morgan, Cwrt Cae Glas.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty i Gary Jones, Stad Dôl Erddi.

Croeso adref hefyd i Christine Davies, Hafan, wedi iddi gael triniaeth i'w throed yn yr ysbyty ac sydd, druan fach, yn ymdrechu i symud o gwmpas ar ei bagl.

Anfonwn ein cofion hefyd at Anne Grundy sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty

ond mae adref erbyn hyn.

Hefyd roedd William, Arosfa, a Brython, Nant y Celyn, wedi anafu eu braich a'r ddau gyda'u braich mewn plaster.


Hyderwn y byddwch ill pump yn gwella yn fuan.

Diolch i'r Ysgol Hoffai Jacqueline, Alan a'r teulu, 9 Stad Tŷ Hen, ddiolch yn fawr iawn i staff, plant a rhieni Ysgol Waunfawr am eu cyfraniad o £425 o bunnoedd tuag at Gancr yr Ymennydd. Casglwyd yr arian yn yr ysgol drwy adael i bob plentyn wisgo het arbennig i ddod i'r ysgol a thalu dirwy am wneud hynny. Diolch o galon.

Cydymdeimlo Mis Chwefror roeddem yn cydymdeimlo â Brenda, Tŷ Ni, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd. Mis Mawrth daeth y brofedigaeth drist o golli ei chwaer, Marian, a oedd yn byw yng Nghorwen, i'w rhan. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â chi a'r teulu yn eich colled. Hefyd yn ystod y mis cymerwyd ei mab, Iolo, i'r ysbyty yn Llundain. Rydym yn falch iawn o glywed ei fod yn gwella erbyn hyn ac rydym yn anfon ein cofion cynnes atoch, Brenda.

Profedigaeth Yn dawel yng Nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn, ac o Ty'n Mynydd, bufarw John Gwyndaf Owen. Cydymdeimlwn â Eleri a Derek, 14 Stad Tŷ Hen, yn eu profedigaeth o golli tad a thad yng nghyfraith ac â'r plant yn colli taid hoff iddynt.

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
 LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225



Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Mai


- Ebrill 30: Mr Robert Morris, Penygroes
- Mai 7: Mrs Susan Williams
- 14: Parch R.E. Hughes, Nefyn
- 21: Dr Tudor Ellis, Groeslon
- 28: Mr Aled Job, Y Felinheli.



Meilir efo ukulele Sbardun.

Yn rhifyn diwethaf yr Eco dywedwyd fod 3 cherddor lleol wedi derbyn offeryn er cof am Sbardun ond mewn gwirionedd mae 4. Etifeddodd Meilir Gwynedd ukulele bariton er cof amdano a bu ar raglen Lisa Gwilym yr wythnos hon yn canu tair cân. Roedd rhaid i un gân fod yn wreiddiol gan Sbardun a chlywsom Tyrd i Ffwrdd. Yn ail roedd rhaid iddo ganu un o'i ganeuon gwreiddiol ei hun ac yma dewisodd Gwlith y Wawr (Cân gan Bigleaves). Ac yn drydedd cân newydd ei chyfansoddi ganddo a chanodd Meilir Cwm Ieuenctid. Ym mhob cân roedd yn defnyddio ukulele y diweddar Sbardun.

Mae Meilir hefyd yn arweinydd Y Gerddorfa Ukulele Gymreig ac ef, yn ddiweddar, a ddysgodd yr actor Jonathan Nefydd (Cefn yn Pobol y Cwm) i chwarae'r offeryn ar gyfer y gyfres.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Sefydliad y Merched Nos Lun, Mawrth 27ain, cyfarfu aelodau Ffederasiwn Sefydliad y Merched yn y Clwb Cymdeithasol yn Llanberis. Cafwyd Noson Gwis lwyddiannus gydag ymdrechion caled i ymateb i'r cwestiynau a osodwyd gan Mr David Walsh o Lanfairfechan. Diwedddwyd y noson gyda bwffe.

Yn ystod y mis hefyd cafwyd noson o hwyl a hiwmor ar ffurf 'Generation Game' wedi ei threfnu gan Grŵp Eryri gyda'r aelodau yn ymgeisio mewn bob math o dasgau hwyliog. Y ddwy aelod fuddugol oedd Gwen a Nicola yn dilyn ras wisgo mewn gêr Achub Mynydd.

Nos Fawrth, Ebrill 4ydd, cafodd y gangen leol wahoddiad i ymweld â changen Pontrug – noson a fwynhawyd yn fawr iawn gan bawb.

Edrychir ymlaen at y Diwrnod Gwenyn yn Llandudno a Chynhadledd Cymru ym Môn yn y dyfodol agos.

Llongyfarchwn y Tîm A Dartiau ar eu llwyddiant diweddar a llwyddo i fynd ymlaen i'r Rownd Derfynol yn Woodlands Hall yn Nefyn. Dymuniadau gorau iddynt.

Cydymdeimlad Bu i ddau deulu yn y pentref gyfarfod â phrofedigaeth yn ystod mis Ebrill. Chwith yw colli o'n plith Dennis John Roberts, Cyttir Bach, a fu farw ar Ebrill 6ed yn 64 mlwydd oed a Hefin Closs Parry, Bryniol, ar Ebrill 9fed yn 84 mlwydd oed. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfaon Mai am 5 yr hwyr

- 7: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
 - 14: Parch Geraint Roberts, Porthaethwy
 - 21: Parch Cath Williams, Caernarfon
 - 28: Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn
- Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd



**Cefnogwch ein
hysbysebwr**

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Ysgol Brynrefail



Llwyddiant i ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn Siarad Cyhoeddus

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol; Lisa Hughes, Gwenno Parry, Sioned Wyn a Robat Griffiths sydd oll yn aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon. Maent i gyd yn ddisgyblion a chyn-ddisgyblion yr ysgol sydd wedi bod yn llwyddiannus lawn yng nghystadlaeth siarad cyhoeddus Eryri o dan 21 yn ddiweddar. Byddant yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli Eryri yng nghystadlaeth siarad cyhoeddus Cymru yn Llanellwedd yn Ebrill. Llongyfarchiadau a hwyl fawr ar y cystadlu!

Math ar ei ffordd i Rydychen!

Daeth newyddion gwych i'r ysgol yn ystod mis Ionawr pan glywsom bod Math Roberts blwyddyn 13 wedi ei dderbyn i astudio yn Rhydychen. Fe wyddom i gyd pa mor anodd yw sicrhau mynediad i Rydychen ac mae'r ffaith bod Math wedi llwyddo i wneud hynny yn glod arbennig iddo ef, ei allu a'i dalent arbennig.

Bu'n rhaid i Math dreulio wythnos yn Rhydychen rhwng y Sed a'r 8fed o Ragfyr mewn gwahanol gyfweiliadau. Derbyniodd ddau gyfweiliad, un gan diwtoriaid Coleg Lincoln ac un arall gan diwtoriaid ail goleg, ar hap, sef St. John's. Yr oedd y cyfweiliadau yn para tua awr o hyd ac yn ôl Math yn fwy o drafodaeth yn hytrach na chyfweiliad ffurfiol a oedd yn rhoi syniad iddo o ffurf cyfnodau tiwtora yn yn y brifysgol. Cafodd hefyd glyweliad gyda'i brif offeryn sef y piano.

Yn ystod yr wythnos cafodd Math flas ar fod yn fyfyrwr yn Rhydychen trwy grwydro'r ddinas a chyfarfod darpar-fyfyrwyr posib eraill. Wedi hynny bu'n rhaid iddo aros am amser go hir nes derbyn llythyr ar yr 11eg o Ionawr yn cynnig lle iddo astudio Cerddoriaeth yn Ngholeg Lincoln, Rhydychen. Rydym yn hynod falch o llwyddiant Math yma yn Ysgol Brynrefail ac yn dymuno'r gorau iddo pan yn cychwyn ar ei gwrs yn yr Hydref. Da iawn a phob hwyl i ti Math!

Llu o ddisgyblion yn cynrychioli Ysgol Brynrefail yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – Penybont ar Ogwr

Ymysg y nifer dda o unigolion sy'n cynrychioli'r ysgol eleni mi fydd nifer o bartion, corau ac wrth gwrs y band yn teithio i lawr i gystadlu yn yr eisteddfod ar ddiwedd Mai a dechrau Mehefin. Dyma'r partion ddaeth yn gyntaf yn yr Eisteddfod Sir ar y cyntaf o Ebrill:

Parti llefaru blwyddyn 7-9

Côr bi7,8 a 9

Parti cerdd dant

Pob hwyl iddyn nhw, i'r Band ac i'r holl gystadluewyr ym Mhenybont ar Ogwr.

Beicio Cymru

Yn dilyn y treialon cyn y Nadolig yn y Ganolfan Tennis, cafodd y disgyblion canlynol wahoddiad arall i fynychu treialon pellach a allai arwain at gael eu dewis i garfan Cymru;

Gwion Evans b10
Cai Williams b10
Anya Williams b9
Kyle Williams b10

Cai Williams

Mae Cai, blwyddyn 10 wedi ei ddewis fel rhan o 'Treialon Cam 3 Academi Gwibio Cymru – Rhaglen Adnabod Talent'. Bydd Cai yn mynychu treialon am gyfnod o 5 wythnos yn y Velodrome yn Knowsley, Lerpwl. Y gobaith yw y bydd yn cael ei ddewis i garfan Cymru ac yn gweithio tuag at y Gemau Olympaidd. Hwyl fawr a dymuniadau gorau i ti Cai.





Ysgol Gymuned Penisa'r-waun



Medalau Pel-droed

Croesawyd Sara a Karen o "Burman Martial Arts" i'r ysgol fore Gwener, Ebrill 7fed, i sgwrsio gyda BL 3, 4, 5 a 6 ynglŷn â bwlio ar y we. Diolch iddynt am roi eu hamser i alw yma yn rheolaidd. Cafodd plant yr Adran Iau bleser a mwynhad yn dysgu sgiliau pêl gyda Nathan Craig o dîm pêl-droed Tref Caernarfon. Bu Nathan yn ymweld â'r ysgol yn wythnosol drwy'r tymor a gwobrwywyd pob plentyn gyda medal ar y sesiwn olaf dydd Gwener, Ebrill 7fed. Diolch yn fawr i Nathan am ei gymorth, mae pawb wedi mwynhau'r profiad.

Yn ystod mis Hydref 2017 bydd Ysgol Gymuned Penisarwaun yn dathlu chwarter canrif ar y safle presennol. I ddathlu'r achlysur mae'n fwriad gan Gyfeillion yr Ysgol geisio codi swm sylweddol o arian er mwyn diweddarau dosbarthiadau ac adnoddau'r ysgol ar gyfer diwallu anghenion disgyblion ar gyfer y chwarter canrif nesaf.

Un o'r gweithgareddau dan sylw fydd taith gerdded nodedig. Bydd disgyblion yr Adran Iau yn cerdded ar daith o'r ysgol gan deithio o amgylch Llyn Padarn. Bydd yr Adran fabanod yn dilyn llwybr gwahanol yng nghyffiniau'r Pentref. Bwriedir cynnal y ddwy daith ar ddydd Gwener, Ebrill 28, yn ystod oriau'r ysgol. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu cefnogi'r ysgol drwy noddi'r disgyblion os gwelwch yn dda.

Cynhelir Ocsiwn Addewidion yn Neuadd Gymuned Penisarwaun ar yr 11eg o Fai 2017 am 7 o'r gloch.

Gobeithiwn allu codi cymaint o arian a phosibl ar y noson dan sylw gan fod cwmni Santander wedi cytuno i noddi'r digwyddiad drwy gynnig cyfraniad punt am bunt i ni am y swm y byddwn yn ei gasglu. Mae hwn yn gyfle gwych i ni godi llawer mwy o arian na fyddai'n bosibl mewn cymuned fach dan amgylchiadau arferol. Er mwyn sicrhau llwyddiant y noson hon byddwn angen casgliad o nwyddau i'w cynnig yn yr ocsiwn. Byddwn yn ddiolchgar iawn i unrhyw unigolyn, cwmni neu fusnes a allai gynnig unrhyw gyfraniad i ni ar gyfer yr ocsiwn hwn, neu am unrhyw gyfraniad ariannol tuag at ymgyrch yr ysgol. Byddwn yn cyhoeddi enwau'r holl gwmnïau / busnesau a fydd yn cynnig nawdd i ni ar wefan yr ysgol ac mewn newyddlenni i rieni. Byddwn yn ddiolchgar iawn i chwi petaech chwi yn gallu cefnogi ein hymgyrch ni er mwyn sicrhau bod Ysgol Penisarwaun yn parhau i gynnig amgylchedd dysgu ysgogol a symbylus lle mae dysgu yn Hwyl! Gellir gwneud cyfraniad drwy gysylltu â'r Pennaeth yn yr ysgol neu drwy un o aelodau'r gymdeithas Cyfeillion. Diolch yn fawr iawn i chwi ymlaen llaw am eich cefnogaeth

RHOSTIO MOCHYN
 Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR *DEWCS MAE O'N FLASUS*
 PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
 BEDYDD • DAWNS • GWYLIU
 CIG O FFERMYDD LLEOL
 PARTION RHWNG 40-400!
 Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
 www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
 Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwr

Ocsiwn Addewidion

Noson elusen wych wedi ei threfnu nos Iau Mai 11eg. Dewch yn llu i godi arian i'n hysgol ni.

£6 — Tocyn i gynnwys bwyd

Ysgol Gymuned Penisarwaun
 7 o'r gloch

Parhad PENISARWAUN



Dymunwn ben-blwydd hapus arbennig i Shirley Jones, Camelot, Penisarwaun yn 80 oed ar y 15fed o Ebrill 2017.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Mawrth oedd Beca Gwyn Jones, Llanfairpwll, rhif 28. Llongyfarchiadau!

Pen-blwydd Hapus - Dymuniadau gorau a phob bendith i Mrs Nannie Evans 26, Bryn Tirion ar ddathlu ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed ar Ebrill 16.

Hoffem dymuno Pen-blwydd hapus iawn i Mr Eifion Williams, 12 Llys y Gwynt, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed ar Ebrill 24ain. Yr un yw'n dymuniadau i'r Parch Tegid Roberts, "Arwel", yntau wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Ebrill. Cofion gorau atoch eich tri.

Diolch Dymuna'r Parchedig Ganon Tegid Roberts ddiolch yn fawr iawn am y cyfarchion caredig a dderbyniodd ar achlysur y pen-blwydd arbennig a ddathlodd yn ddiweddar.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr yw: Rhian Thomas, Seion, a Mrs Blodwen Mowll, Bryntirion.

Cynhaliwyd 'Disgo'r Pasg' a dymunir diolch i bawb a gefnogodd y noson. Diolch i Twm Herd am baratoi'r casgliad o ganeuon Cymreig a diolch i'r rhieni am ddod i ofalu am y plant. Bu'r stondin cŵn poeth a'r Tombola yn brysur iawn.

Cynhelir 'Hwyl yr Haf' ddydd Iau, Mehefin 8fed, yn y Neuadd Gymuned a thu allan i'r Neuadd os bydd y tywydd yn ffafriol. Tynnir Clwb Cant Mai ar y noson. Atgoffir aelodau'r pwyllgor y cynhelir pwyllgor ar Fai 15fed am 7.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned.

Eisteddfod Bentref Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned am 6.00 y.h. Nos Fercher, Gorffennaf Sed. Bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

Oed Cynradd - Bydd yr ymarferion cyntaf nos Lun, Mehefin 6ed, o 6-7 yh gydag ymarferion Uwchradd ac oedolion i ddilyn.

Cynhelir 'Noson Bingo' nos Iau, Mai 25ain am 6.30 yn y Neuadd Gymuned.

Cynhelir pwyllgor nos Lun, Mai 15fed yn dilyn Pwyllgor Neuadd Gymuned am 7.30.

Ysgol Sul Bosra Cafwyd cyfnod difyr o wneud cardiau a mwynhau Helfa Wyau Pasg cyn y Pasg. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Ebrill 30ain.

Eglwys Santes Helen

Gwasanaethau Mis Mai

Cymun Bendigaid bob dydd Sul am 11yb

Cronfa'r Fynwent Fe gydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion canlynnol tuag at y gwaith o gynnal a chadw y fynwent. Fe fydd y gwaith o dorri'r gwair yn cael ei wneud yn fuan, a bydd hyn yn cymeryd lle 6 gwaith y flwyddyn. £20: Valerie a Nora gynt o'r T? Capel; £20: Mr & Mrs Dafydd Owen, 7 Bryn Hyfryd Terrace; £10: Dr William Munro a Miss Helen Evans-Munro.

Gyrfa Chwist Cynhelir gyrfa chwist yn neuadd yr Eglwys pob nos Fawrth am 7.30yh

Bingo Arian Fe gynhelir y Bingo arian yn neuadd yr Eglwys nos Fercher Mai 3ydd, 17eg a 31ain am 7yh. Bydd elw y bingo arian yn cael ei rannu gyda gwahanol sefydliadau ar ddiwedd y flwyddyn.

Bingo Gwobrau Fe gynhelir y Bingo yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, Mai 10fed, am 6.30yh. Fe gesglir enwau yn ystod y noson ar gyfer Brenhines y Carnifal, y tywysog a'i morynion.

Disgo Fe gynhelir Disgo yn neuadd yn Eglwys Nos Wener, Mehefin 2il, am 6.30yh pryd y dewisir enwau ar gyfer Brenhines y Carnifal yn ystod y noson.

Wythnos gweithgareddau a Charnifal 2017 Fe fydd yr wythnos weithgareddau eleni yn dechrau ar y nos Lun, Mehefin 26ain, gyda'r Carnifal ar Orffennaf 1af a Chymanfa Ganu i gloi y gweithgareddau ar nos Sul, Gorffennaf 2il. Fe fydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
 PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
 PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
 3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

Marchnad Ogwen
 Neuadd Ogwen Bethesda
 (Marchnad Mehefin ar gae Sioe Dyffryn Ogwen)
 Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.30
 Bwydydd • Creffttau • Lleol
 www.marchnadogwen.co.uk

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
 FURNITURE & FLOORING

••• **01286 673535** •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA

✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
 ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
 ✓ Adran teithiau grŵp.
 ✓ Tocynnau rhodd.
 ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvoniaco.uk

COLLIER MWYN ENNILL:



Dyna'n sicr fu hanes Cled Post yn ddiweddar. Bu Cled yn aml gyfaddef ei fod yn 'licio' i fwyd' ac fel nifer ohonom yn pigo bwyd – bisgedi, cacennau etc. rhwng prydau. Ac anodd yw hyn o gofio'r amrywiaeth ddanteithion sy'n llenwi cownter y Post. "Digon yw digon", meddai Cled ac wrth dorri i lawr yn sylweddol collodd bwysau ryfeddol. Daeth Cled 16st.8p yn Cled 13 ston 11p. Tipyn o ddisgyblaeth a chafwyd parti i ddathlu'r 'golled' yn y Neuadd Goffa. Cafwyd ymateb arbennig, ac ar ddiwedd y noson roedd Cled yn gallu cyhoeddi rhoddion o £1000 yr un i bwyllgorau y Neuadd a'r Clwb Pêl-droed. Diolch eto Cled am dy gefnogaeth i wahanol fudiadau dros cyfnod o amser – a llongyfarchiadau.

CYFRIFIAD TAI LLEOL: Ar gais y Cyngor Cymuned mae Grwp Cynefin wedi paratoi holiadur yn ymwneud â barn trigolion y plwyf ynglyn â datblygiad tai addas mewn ardaloedd gwledig. Mae yn holiadur cynhwysfawr sy'n rhoddi cyfle i bob un ohonom i fynegi barn – o bob oed, boed yn berchnogion tai, chwilio am dŷ, meddwl ailgyfeirio o ran maint etc. Gobeithio fod nifer ohonom wedi cymeryd y cyfle i ddychwelyd yr holiadur. Yn sicr mae cynllunio yn un o brif destynnau trafod yr ardal ar hyn o bryd. Edrychwn ymlaen i ganlyniad yr archwiliad.

DIOLCH: I Gwilym a Sheila Williams, Bro Rhos am eu parodrwydd i gymeryd drosodd fel dosbarthwyr yr Eco wedi 'ymddeoliad' Glenys. Diolch hefyd i chwi gefnogwyr selog am eich tanysgriadau blynyddol unwaith eto. Braff clywed wedi apêl mis diwethaf bod mwy wedi holi am gael yr Eco yn y pentref.

NOSON HUD: Heno (28/4) fel rhan o raglen pwyllgor Gweithgareddau Y Cysegr ceir noson o adloniant yng nghwmni y consuriwr Howard Hughes. Bydd y noson yn dechrau am 7pm gyda tâl mynediad yn £2 i oedolion a phlant yn rhad ac am ddim.

O'R YSGOL GYNRADD

Bu ymgyrch 'Big Pedal' ymlaen yn ysgolion Prydain yn ddiweddar. Y syniad yw annog y disgyblion i deithio i'r Ysgol drwy gerdded, beic neu sglefrwrdd. Rhan wrth gwrs i hybu y frwydr yn erbyn gor-dewdra. Cafwyd ymateb da a chyflwynwyd tabl gan yr awdurdodau yn dangos dros gyfnod yr arbrawf fod Bethel yn safle 27 allan o 161 o ysgolion.

Mae cryn bwyslais ar Fathemateg o fewn yr Ysgol, ac un elfen o'r addysgu yw cynllun Mathletics. Cynllun strwythiedig yw hwn yn canolbwyntio ar yr elfennau craidd o'r pwnc. Mae'r gwaith yn gynyddol heriol. Mae'r gwaith wedi ei osod yn gyfrifiadurol gyda gwaith y plant yn cael ei gofrestru yn ganolog. Mae'r gwaith unigol

yma a'r drafodaeth gysylltiol o fodd i'r plant. Fe ddefnyddir y dull Mathletics drwy'r byd ac yna fe gyhoeddir tablau yn dangos safle yr ysgolion. Fe gymherir perfformiadau'r ysgolion led-led y byd dros gyfnod o bythefnos.

Yn wythnos gyntaf asesiad Chwefror roedd Ysgol Bethel yn AIL YN Y BYD, tu ôl i Ysgol yn Barcelona (pwy arall?) ac yn gyntaf drwy Brydain. Erbyn yr ail wythnos roeddent yn 4ydd. yn rhestr y byd ac ail drwy Brydain. Anhygoel! (Trueni na chyfeirwyd yn y tabl mai Ysgol yng Nghymru yw Bethel.)

Bu tîm cymysg Hoci Bl.4 yn cymeryd rhan mewn cystadleuaeth yr Urdd a chafwyd perfformiad da yn gorffen yn yr ail safle.



Ers sawl blwyddyn bellach mae Bl.6 ysgolion Gwynedd yn cael ymweld â Chaerdydd cyn gadael i'r Ysgol Uwchradd. Mwynhaodd y criw cyfredol yn arw gan ymweld â nifer o fannau diddorol. Yr uchafbwynt i'r mwyafrif oedd ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol, a gwyllo dadl o'r Oriol Gyhoeddus. Cafwyd awgrym gan rai o'r plant fod 'gwleidyddiaeth' yn apelio atynt!. (Gyda llaw, allwch chi enwi y ddau Aelod Seneddol a anwyd ym Methel?)



Dymunwn y gorau i Donna Owen yn ystod ei absenoldeb mamolaeth, ac i Caryl Williams fydd yn dechrau swydd newydd wedi'r Pasg.

Parhad BETHEL

CLWB BRO BETHEL: Croesawyd pawb gan y llywydd Marcus Robinson, a danfonwyd cyfarchion at nifer o aelodau nad ydynt yn teimlo'n holliaich ar hyn o bryd. Y gyn-athrawes Gwen Aaron o Riwas ddaeth draw i roddi sgwrs yng nghyfarfod Ebrill. Roedd thema'r sgwrs yn seiliedig ar ddwy elfen sef ei magwraeth yn Aberystwyth a'i hoffter o gerdded. Cyplyswyd y ddwy elfen gan iddi ein tywys yn eiriol a darlunio ar hyd llwybr arfordir Ceredigion. Fe'n denwyd o lannau'r Teifi ger Aberteifi yng nghodre'r sir i'r man mwyaf gogleddol draw yn y Borth. Wrth rannu darluniau gwych o'r arfordir cawsom gyfeiriadau hanesyddol a naturiaethol o'r manau. Aberporth, Tresaith, Ynys Lochtyn, Cwm Tydu, Aberaeron ac wrth gwrs rhaid oedd oedi yn Aberystwyth. Cyfeiriodd Gwen fod cyswllt braf rhwng y daith a thwristiaeth gyda digon o fannau lletya ac ymborthiant i dorri'r siwrnai. Yn sicr, taith hamddenol yw'r daith hon ac un i ni ei gwerthfawrogi wrth ein pwysau.

DECHRAU CHWYSU: Daw Mai a'i bwysau blynyddol i nifer o'n hieuenctid fydd yn gwynebu arholiadau lefelau 'O' ac 'A' yn yr wythnosau nesaf. Dymunwn y gorau iddynt a gobeithio y cânt wireddu eu disgwyliadau wedi dyddiau'r ysgol.

ETHOLIAD: Bu'r ddau ymgeisydd yn gweithio'n galed yn curo drysau a rhannu taflenni yn yr adeg sy'n arwain i'r etholiad sirol ar Fai 4ydd. Dymuniadau gorau i'r ddau, a'r lleiaf y gallwn ni fel etholwyr ei wneud yw bwrw ein pleidleisiau un ffordd neu'r llall. Mae gan ward Bethel hanes traddodiadol o ganran uchel o bleidleisio. Gwae ni i gwyno ac achwyn wedi'r etholiad os nad oeddem yn barod i fwrw'n pleidlais.

BRYSIWCH WELLA: Dyna yw'n dymuniadau i Glenys a Morgan, Llwyn Eithin ac Eiriona Jones, Bro Rhos.

BEDYDD: Ar Sul cyntaf y mis bedyddwyd Lois Gwyn, merch Owain a Delyth Gwyn yng Nghapel y Cysegr gan y gweinidog Marcus Robinson. Mae Lois yn wyres i Gwynfor ac Edwina Morris, Treflys. Er bod Delyth a'r teulu yn byw ym Mhenrhosgarnedd bellach, mae hi yn ffyddlon iawn fel athrawes Ysgol Sul yma yn y Cysegr.

Y MAST: Fel y sylwch mae'r gwaith wedi dechrau ar leoli mast negeseuon ffônau symudol ar y llain tir ger y maes pêl-droed. Pan ddaeth y cais o flaen y cyngor Cymuned cafwyd gwrthwynebiad gan y Cyngor a'r Cynghorydd Sir oherwydd ei leoliad allai dynnu sylw gyrrwyr wrth agosau at droad beryglus sy'n arwain i Ffordd Crawia. Yn y cyflwyniad i'r Cyngor roedd y cwmni yn dweud eu bod wedi holi ynglyn a chwe safle yn ardal Bethel ond fod y perchnogion i gyd wedi gwrthod. Gan fod y mast bellach i'w osod ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, efallai dyma paham y rhoddwyd caniatad di-amod i'r cwmni gario ymlaen.

Merched y Wawr



Newyddion y mis.

Cydymdeimlwyd hefo Eirlys a gollodd ei mam yn ddiweddar. Derbyniwyd llythyr gan Dafydd Orit i ddiolch am gyfraniad wnaethpwyd gan y gangen tuag at ei daith i Patagonia.

Estynwyd llongyfarchiadau i Angharad Price am gipio Gwobr Dramodydd Gorau yn yr Iaith Gymraeg am ei drama 'Nansi' sy'n olrhain hanes Nansi Richards, Telynores Maldwyn.

Dymunwyd yn dda i bawb sy'n mynd i Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai.

Cafwyd gwybodaeth bod y Trip Diwedd Tymor wedi ei drefnu a gwahoddwyd yr aelodau i gofrestru ar gyfer y daith i ben yr Wyddfa ac i gael te bach wedyn. Digwyddiad gwerth chweil i ddathlu'r aur ac i gloi gweithgareddau'r flwyddyn.

Cyflwynwyd a chrosawyd Debbie Jones i'r gangen ar y Sed o Ebrill gan ein llywydd Gwyneth.

Noson o Gadw'n Iach a Heini, ac yn wir fe gafwyd hwyl wrth i bawb geisio ymestyn ac ystytho rhai cyhyrau nad oedd wedi cael defnydd ers sbel!!

Pwysleisiodd Debbie y gall pawb wneud hyn, does dim rhaid sefyll hyd yn oed, mae'n bosib gwneud y symudiadau wrth eistedd ar gadair a theimlo llawer yn well ar ôl eu gwneud.

Pawb wedi mwynhau'r sesiwn ac wedi cael tonic o'r chwerthin wrth gymeryd rhan.

Diolchwyd iddi am noson mor hwyliog gan ein dysgwraig Cecille a braf oedd ei chlywed yn siarad ein hiaith mor rhugl. Dal ati Cecille.

Enillydd y raffl oedd Gwyneth

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 10fed am 7.30 pan fydd Carol Llywelyn yn rhoi blas a hanes y cwmni 'Welsh Preserves'

Mwy o luniau'r noson i'w gweld ar y wefan: mywbethel.org

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
 22 BLWYDDYN
 O BROFIAD
 Ffôn- 01286 677668
 Symudol-
 07940023159
 Gladwyn Station Rd.
 LLANRUG, Caernarfon
 LL55 4AG
 Eboest- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
 Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
 YR WYŶN LLEOL MWYAF BLASUS
 SELSIG CARTRE
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
 ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

grid 76
 graphic design
North Wales
SIGNS
 Gogledd Cymru
 Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalesigns.com
grid76.co.uk | 07766956673



Llongyfarchiadau enfawr i Elin Dafydd am ddod yn 1af gyda'r Unawd Corn, ac hefyd 1af gyda'r Unawd Blwyddyn 5 a 6 yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor, dydd Sadwrn, 25 o Fawrth. Ymlaen â ti rwan i Eisteddfod yr Urdd yn Pen-y-bont ar Ogwr yn mis Mai.

Llongyfarchiadau iddi hefyd am gael y wobr 1af yn yr Unawd blwyddyn 5 a 6, ac 2il ar yr Unawd offerynnol yn Eisteddfod Llandderfel ar 14eg o Ebrill 2017. Pawb o'r teulu yn proud iawn ohonat.

Diolch i Sian Gibson a Gavin Saynor am ei hyfforddi.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theulu'r ddiweddar Mrs Olive Jones, 1 Hafod Olau, Deiniolen a fu farw yn Ysbyty Eryri yn ddiweddar.

Dymuna Margaret, Crud yr Awel, Porth Gogledd, ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am y cyfarchion pen-blwydd a'r anrhegion ar ei phen-blwydd arbennig.

Carnifal Deiniolen.



Gwilym Williams (Deiniolen gynt) anfonodd y llun. Fo ydi'r Tywysog golygus ar y chwith yn y llun. Mae'r genethod yn cynrychioli gwahanol ysgolion cynradd y fro, a'r ferch fach agosaf ato yw Beti Wyn o Lanberis. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach cyfarfu'r ddau unwaith eto yn Ysgol Brynrefail, a'r mis diwethaf dathlodd y ddau eu penblwydd priodas - 47 o flynyddoedd yn ddiweddarach. Llongyfarchion a chofion atoch eich dau. Oes rhywun arall yn cofio rhai o'r carnifalau?

Llongyfarchiadau i Beca Medi Jones, Rhiw Goch, ac Elin Worth, Rhos Fictoria, am ennill cystadleuaeth Formiwla 1 yn Silverstone yn ddiweddar gyda 4 o ferched eraill o Ysgol Brynrefail - Tîm 'Falcon Force'. Bydd y tîm yn cystadlu yn rownd derfynol y byd yn Malaysia diwedd Medi 2017. Pob lwc i Tîm 'Falcon Force' o Ysgol Brynrefail. Diolch i'r athro DT, Mr Paul Griffiths, am ei amser a rhoi'r cyfle iddynt.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Premier
Y Stofa Premier Llanrug
Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

CLWB CINIO ARFON

Colofnydd pysgota yr Eco – a cholofnydd achlysurol y Daily Post – y cyn-blismon Huw Hughes ddaeth i'n diddori - a'n brawychu - yng nghyfarfod Ebrill. Aeth a ni i faes yr ysbrydion, ac hefyd i faes ambell i sgerbwd. Cyfeiriodd Huw fod ei nain, fam ac yntau yn ymwybodol o bresenoldeb ysbrydion.

Tra'n heddwes yn Wrecsam byddai'n cadw 'golwg nos' ar blasty Erddig. Yn y plasty roedd darlun paentiedig o'r Barnwr Jeffries - y Crogwr, ar lafar gwlad. Roedd coel y buasai rhywun â syllai ar y llun yn siwr o 'weld' y gwrthrych yn y cnawd fel petai. Ac un noson, daeth nyrs i'r Plasdy yn son iddi weld rhywun yn marchogaeth ar gefn march gwyn yn y Parc. Y Barnwr?

Yng Nghlwb y Rhyddfrydwyr yng Nghaernarfon roedd rhai yn tystio gweld hen longwr yn eistedd mewn cadair yng nghornel yr ystafell. Hefyd byddai gorchuddion y byrddau snwcer yn symud ar liwt ei hunan.

Ym Mhlasdy'r Glasgoed gwelodd deulu o ymwelwyr hen wreigen yn gweu ar ochr y gwely. Eraill yn gweld hen fachgen yn cerdded uwch lefel y llawr. Welest ti rywbeth, Dafydd Guto?

Yna'r sgerbydau roedd rhaid ymchwilio iddynt. Yn 94, Stryd yr Eglwys yn Dre' darganfuwyd braich merch yn unig. Wrth ei hochr roedd copi o'r Herald Cymraeg 18.. O ymchwilio daeth yn amlwg fod y fraich wedi ei gwahanu o'r corf drwy ddulliau meddygol. Rhaid cofio mai y stryd yma oedd Harley St., Caernarfon yn y cyfnod ac yn yr adeilad a ddaeth yn Aelwyd ym mhellach ymlaen roedd y Coleg Athrawon, rhagfleunydd y Coleg Normal a symudodd i Fangor.

Tystiodd llawer i synnau annesboniadwy ar lawr cyntaf y Black Boy, sy'n gyrchfan i ymwelwyr bellach. Darganfuwyd esgyrn ym maes parcio y dafarn hefyd.

Yn yr un modd darganfuwyd sgerbydau yn y Tŵr Crogi yn 1932. Bu'r crogi cyntaf yn 1757.

Yna'r gell 'olaf' cyn y crogi dau lawr odditan yr hen Lŷs y Goron. Awyrgylch annifyr i'r lle a phan oedd yn rhan o swyddfeydd y Cyngor Sir, byddai llawer yn gwrthod mynd yno. Tystiai yr arch-ysbrydwr y Prifardd Elwyn Edwards fod presenoldeb pendant yno. Rhai yn awgrymu mae presenoldeb Murphy yr olaf i'w grogi yno yw'r rheswm.

Ar fferm Tŷ Mawr, Llanddeiniolen cafwyd tystiolaeth o 'weld' hen wreigen mewn du yn cario basged ar yr hen lwybr plwyf sy'n mynd gyda thalcen y fferm i gyfeiriad mynwent Llanddeiniolen. Mae rhan o'r fynwent yn gorwedd uwchben hen adeiladau Rhyfeinig.

Ac yng Nghefn Bach, Bethel un noson cododd y rhieni mewn ymateb i'w baban bach fod yn criu. Yno'n sefyll wrth ddrws yr ystafell wely roedd rhith o berson yn sefyll.

Tystiolaeth? Damcaniaeth? Hen Goelion? Straeon Arswyd? Straeon Celwydd Golau?

Pwy ŵyr, ond mae Huw yn sicr yn argyhoeddiedig eu bod yn 'bod'.

Noson ddifyr iawn oedd hon, yn cynnal y safon uchel ac amrywiol o westeion gwadd elenni.

**Bwria'i rwyd am ysbrydion – dŵr y plwyf
drwy ro'i plwc i'n coelion.
Mae cnaf yn llif pob afon
i ro'i rhith i'r stori hon.**

Cofia Ddweud, Cadwa'n Ddiogel

Mae un o wasanaethau arloesol NSPCC - sydd eisoes wedi cyrraedd dros 25,000 o blant mewn ysgolion ledled gogledd Cymru - yn galw am fwy o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn er mwyn eu helpu i ehangu rhagor.

Wedi'i ddarparu gan wirfoddolwyr hyfforddedig, mae Cofia Ddweud, Cadwa'n Ddiogel yn ceisio gwneud yn siŵr bod disgyblion ysgolion cynradd yn gallu cael gafael ar wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â sut mae cadw'u hunain yn ddiogel rhag camdriniaeth.

Mae cyflwyniadau gwasanaeth arbennig yn helpu plant i wneud y canlynol:

- Deall yr holl wahanol fathau o gam-drin ac adnabod arwyddion camdriniaeth
- Dysgu sut mae amddiffyn eu hunain rhag yr holl wahanol fathau o gam-drin
- Adnabod sut mae cael cymorth, ac adnabod y ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys Childline

Yng Ngwynedd yn ystod 2015/16, mae gwirfoddolwyr NSPCC wedi cynnal 56 o ymweliadau ag ysgolion ac wedi siarad â 1432 o ddisgyblion yng Ngwynedd. Er mwyn gallu parhau i rannu'r negeseuon hollbwysig hyn, hoffem glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â'n tîm o wirfoddolwyr sy'n ymweld â'n hysgolion cynradd i gynnal Gwasanaethau a Gweithdai.

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â Rhian Jones drwy anfon neges e-bost at rhian.jones@nspcc.org.uk neu ffonio 07980 005 664.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i nspcc.org.uk/schools.



**Gwesty Dolbadarn
Llanberis**

Ffôn-(01286)-870277

Hyn ac Arall Beth a Ddaw Ohono?

Drwy gydol hanes, ar lechweddau'r Wyddfa, fel mewn sawl man arall, cafwyd newidiadau dirifedi, rhai ohonynt ond yn rhyw oglais-grafu'r ddaear fel petae, ac eraill yn llawer mwy creiddiol ran eu heffeithiau; hyn i gyd ran defnydd o'r tirwedd a lleoedd i fyw a chyd-addoli ynddynt. Dyma droi at un man cysegredig mi dybiaf. Ebe'r diweddar Tom H. Williams, Y Garreg Fawr, Waunfawr:

Nid yw i'r llu ymwelwyr ddaw ar eu hynt
Ond hen adeilad moel diaddurn llwm...
Ac fe'i lleolir ganddo, ger y rheilffordd gul:
Nid nepell o'r ardderchog linell gul
Y saif yn friw i'r llygaid erbyn hyn
'Does neb yn cyrchu iddo ar y Sul,
Amddifad yw'r hen gapel ar y bryn...

Hen deulu Rali, Foty a Chasnewydd Bach
A'r Helfa a Chae-esgob droediai'n fyw -
A chyrchu gydag eraill yno'n iach,
I Hebron oedd bryd hynny'n dŷ i Dduw.

Cynhwysir y penillion uchod yn eu cyfanrwydd yng ngholofn lythyrau Eco'r Wyddfa Rhagfyr 1982, sy'n mynd â nyhi ran amser 35 mlynedd yn ôl, 'efo Cledwyn Jones, Hebron, yn sgwennu llythyr i'r papur bro er mwyn cefnogi'r diweddar Rol Williams a llythyrwyr eraill ynghylch cyflwr truenus Hen Gapel Hebron.

Yn ei gyfrol Pobl Tu Ucha'r Giat... (2001) disgrifia Rol Gapel Hebron fel canolfan grefyddol a chymdeithasol Gwaun Cwm Brwynog... Yno, y ddi'r teuluoedd at ei gilydd ar brynhawn Sul i addoli a chydai'r nos ganol yr wythnos byddai'r plant yn tyrru'n gynffonnau hir ar draws y gweirgloddiau gyda'u lanterni i'r Gobeithlu, dosbarth darllen ac ymarferiadau canu o dan ddisgyblaeth teulu Bryn Coch.

Y mae mam, sy'n 96 mlwydd oed, yn hanu o Landecwyn ym Meirionnydd, ac o blwyf gwledig sy'n dal cyswllt â'r cyn- saer coed a'r gweinidog, a fu byw'n Bodawen, Llanberis, pryd ceid yn ei ofal Capel Gorffwysfa. Cyfeirio rydw i at Griffith Tecwyn Parry, a fu farw yn 76 mlwydd oed a hynny yn y flwyddyn 1911, a'i gladdu ym mynwent Llanrug. Er na cheir cyfeiriad ato mewn Bywgraffiaduron Cymreig, erthyglwr diwyd, awdur nifer swmpus o lyfrau yn yr iaith Gymraeg, a bardd medrus ydoedd o. Gweithio ar y tir a wnâi ei dad, a oedd yn gyn-frodor o bentra Clynnog. Does ryfedd i Gruffudd, ei fab, fynd yno am ei addysg i Ysgol Eben Fardd. Merch o Landecwyn ydoedd Ann, mam Gruffudd Parry. Buont fyw yng Nghaebrân a meddylid mai ym mhlwyf Llandecwyn y ganed G.T.P. Ond dengys Cyfrifiad 1841 bod Gruffudd yn chwe mlwydd oed ac yn byw yn Nhy'n Bryn, yn y plwyf nesa at Llandecwyn, sef Llanfihangel y Traethau.

Capel Hebron? Y llynedd fues i yno.

...Yr oedd bob amser yn gaffaeliad gwerthfawr i drigolion mân dyddynod a ffermdai y Waun-cwm-brwynog. Ond fe pobpeth, yr oedd amser yn ei heneiddio a'i adfeilio. Y Goleuad Ebrill 13eg (1872) t.4.col.3.

Penderfynwyd atgyweirio'r capel ac adeiladu tŷ cysurus wrth ei myl. A'r cynllunydd? Ie, Griffith Tecwyn Parry! Y contractwr ydoedd: D. Wilson Roberts, Llanber. Nid yn unig mi roedd G.T.P. yn weinidog, ond mi roedd o hefyd yn asiedydd, un fedrai drin peiriannau a'u hasio ynghyd i'w lleoedd.

Ni sonnir am y costau a gaed i adeiladu'r tŷ capel. Llafur cariad? Gweithredu a wnaed heb ofyn am dâl na 'chwaith clodfori; rhywbeth na welir rhyw lawer ohono yn ein hoes oleuedig-gyfalafol ni.

Erbyn hyn, adeilad gwag ydyw Capel Hebron, heb hyd yn oed arwydd ar un o'i furiau sy'n dynodi ei le'n hanes Cymru. Onid ydyw hi'n hen bryd symud tuag at roddi gwell gwedd a sylw i fan mor gysegredig a Hebron, ac ennyn tamaid yn fwy o barch tuag ato? Rhyfedd meddwl fel y mae un oes yn cyflym anghofio'r hyn a fu cymaint rhan o'i threftadaeth. Dyma beth ydyw trasiedi, a chnwl cloch marwolaeth arall yn ein hanes fel cenedl.

Dafydd Gruffudd Ifan



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Peredur Lynch yn cyhoeddi ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth: Caeth a Rhydd

Ar nos Iau, 30 Mawrth, roedd Neuadd Prichard-Jones, Prifysgol Bangor, yn atseinio i ganu angerddol Côr Seiriol. Roedd hynny'n ystod chwip o noson i ddathlu cyhoeddi Caeth a Rhydd, cyfrol o farddoniaeth gan Peredur Lynch. Daeth yn agos i dri chant ynghyd ar gyfer yr achlysur ac roedd y dorf mor lluosog fel y bu'n rhaid symud yr achlysur o Neuadd Powis, y lleoliad gwreiddiol, i brif neuadd y Brifysgol.

Bron i ddeugain mlynedd ers i Peredur gipio cadair Eisteddfod yr Urdd yn 1979, ac yntau ond yn un ar bymtheg oed, o'r diwedd cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth gan wasg Carreg Gwalch. Ceir ynddi gasgliad o gerddi ar y mesurau rhydd a chaeth, ac yn ystod y lansiad cafwyd sgwrs ddatlennol rhwng Angharad Price, Peredur a chyhoeddwr y gyfrol, Myrddin ap Dafydd.

Yn ôl Myrddin, "Mae gwerth dwy gadair a dwy goron yn y casgliad hwn. Dydi Peredur ddim wedi dilyn trefn arferol enillydd ifanc yn yr Urdd – ymrysona, ennill mân gadeiriau, yna'r Genedlaethol ac yna cyhoeddi'i gyfrol gyntaf. Mae wedi torri'i g?ys ei hun ac wedi bod yn brysur mewn meysydd eraill. Ro'n i'n falch iawn pan ddywedodd wrtha i fod ganddo gasgliad o'r diwedd. Mae canrifoedd y traddodiad barddol yn fyw iawn yn ei gerddi – yn adleisiau bwriadol ac yn barodiau – ond mae o hefyd wedi canfod ei lais ei hun ac mae yma hefyd dinc newydd iawn. Mae'i ddilyniant wrth glirio stydi ei dad yn cyfuno cerddi caeth a rhydd ac maen nhw'n ardderchog."

Meddai Peredur, sy'n frodor o Garrog yn yr hen Sir Feirionnydd, "Mae cryn amrywiaeth o ran naws yn y gyfrol, cerddi dwys a cherddi ysgafn, rhai i 'nheulu, rhai ar gyfer dathliadau arbennig, rhai i gofio mawrion y genedl, a cherddi dychan hefyd".

"Ymysg y cerddi mae dilyniant er cof am fy nhad, y Parchedig Evan Lynch a fu'n weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd

Cymru yn ardaloedd Carrog, Glyndyfrdwy a Bryneglwys. Y gerdd dwi fwy balch ohoni, er mor drist oedd y rheswm dros ei chyfansoddi, ydi'r farwnad i Gwyn Thomas. Dwi'n ymdrechu'n fwriadol yn honno i ailgylchu ac adleisio rhai o nodweddion y canu mawl clasurol. Mi fu'r gwaith o'i llunio yn chwysfa eithriadol ac fe'i cwblhawyd yn ystod cyfnod sabothol ym Mhrifysgol Harvard. Dwi'n sicr y byddai Gwyn yn chwerthin o ddeall 'mod i wedi mynd yr holl ffordd i America i orffen sgwennu cerdd amdano fo."

"Dwi'n gobeithio eu bod nhw'n gerddi hygyrch. Wrth gwrs, mae 'nghefnidir fel mab y mans a'r ymchwil ysgolheigaidd dwi wedi'i wneud dros y blynyddoedd wedi dylanwadu ar y gwaith. Mae'n anorod fod y pethau dwi wedi fy nhrwytho ynddyn nhw yn ymdreiddio i'r cerddi. Ar ôl blynyddoedd o ymroi i ysgolheictod, roedd hi'n braf dychwelyd at y gynghanedd. Mae mantais o beidio cyhoeddi cyfrol yn rhy ifanc. Mae bydolwg rhywun yn newid a rhywun yn gweld pethau mewn goleuni gwahanol. Mae olion hynny yn y casgliad. Fe wnes i sgwennu'r gerdd 'Gwenllian' pan oeddwn i'n ifanc. Bydolwg Gerallt Lloyd Owen sydd yma ac nid yr union ffordd y byddwn i'n gweld pethau heddiw. Ond o'i chynnwys, dwi'n gobeithio fod y casgliad yn dangos fod 'na ddatblygiad syniadol yn fy hanes."

Nid cynnwys y gyfrol yn unig sy'n gwneud Caeth a Rhydd yn gyfrol i'w thrysori. Mae hon yn gyfrol hardd sydd wedi'i dylunio a'i rhwymo gyda chreffft a gofal. Meddai Peredur ymhellach, "Cyhoeddodd John Morris-Jones ei gyfrol Caniadau ar bapur drudfawr. Fe alwyd y gyfrol honno gan ei elyn llenyddol, T. Marchant Williams, yn 'Machine made poetry on handmade paper'! Dwi'n greadur balch, ac roeddwn i eisiau'r papur a'r diwyg gorau! Mae gen i ddiddordeb mawr mewn dylunio a rhwymo, ac mae'n debyg fod y diddordeb hwnnw'n deillio'n ôl i 'niddordeb yn llawysgrifau'r Oesoedd Canol. Roedd o'n brofiad amheuthun cael gweithio gydag Olwen Fowler, dylunydd y gyfrol. Fe lwyddodd hi i ymateb mor dreiddgar i'r testun."

Meddai Olwen Fowler, "Roedd creu delweddau'r gyfrol hon yn broses greadigol newydd i fi. Dwi'n gweithio gyda'r meddalwedd 'Photoshop' bob dydd, ac yn aml yn creu montages ar gyfer cloriau ac ati. Ond y tro 'ma ro'n i eisiau defnyddio'r sialens i arbrofi gyda haenau o gyfryngau cymysg yn ogystal a'r gwaith cyfrifiadu'r."

"Y cam cyntaf oedd cyfansoddi'r ddelwedd drwy osod yr elfennau ffotograffig ar y sgrin yn 'Photoshop' ac argraffu'r llun yn weddol fawr ar bapur. Wedyn roedd yn rhaid defnyddio'r pastels olew a phensiliau lliw er mwyn gweithio ar y print papur. Ar ôl sganio'r ddelwedd newydd yn ôl i mewn i'r cyfrifiadu'r, y darn anodd oedd gosod yr haenen yma yn uniongyrchol uwchben y montage gwreiddiol yn 'Photoshop', gan geisio lleoli'r ddwy elfen mor agos at ei gilydd â phosib. Bues i wedyn yn chwalu darnau bach o'r haen uchaf newydd er mwyn i effaith y ffotograffau ddangos yn effeithiol. Y cam yma, a'r darlunio mewn pastel, oedd y rhan fwyaf cyffrous o'r broses."

"Rwy'n gobeithio bod y delweddau, a'r hwyl ges i trwy arbrofi, yn gwneud cyfiawnder ag ysgrifennu ysbrydoledig Peredur."

Yn ystod y lansiad ym Mangor darllenwyd detholiad o'r cerddi gan Eleri Richards, aelod o Gôr Seiriol, a chanwyd dwy ohonynt gan y côr. Cafwyd difyrrwch mawr hefyd pan adroddodd Peredur neges e-bost a dderbyniodd gan Siôn Llewelyn, hen ffrind ysgol iddo. Mae Siôn yn fferyllydd yn y Bala ac yn fath o wasanaeth iechyd un dyn ar gyfer ymdrin â mân anhwylderau trigolion y fro.

Wrth ymddiheuro na fedrai ddod i'r lansiad, roedd gan Siôn ei ddehongliad meddygol ei hunan o deitl y gyfrol Caeth a Rhydd: "Diolch o galon am y gwahoddiad i'r lansiad nos Iau. Hen bryd i rywun ysgrifennu llyfr Cymraeg am broblemau y bowel isaf. Fase ti'm yn credu pa mor gyffredin ydi'r anhwylderau hyn... Yn anffodus ni fyddwn yn gallu dod... Gobeithio y bydd [y gyfrol] wedi ei darllen yn ffitio dan goes y bwrdd i ddod â chydig o sefydlogrwydd i'n prydau bwyd a hwyluso treuliad ein porthiant."

Cadeiriwyd y gweithgareddau gan yr Athro Gerwyn Williams, ac i gloi'r noson adroddodd ymateb y Prifardd Llion Jones i'r gyfrol Caeth a Rhydd:

Â natur y clasurydd – yn llawiau

â doniau'r diwinydd

a rhin y gwir awenydd,

coeth o raid yw 'Caeth a Rhydd'.

Mae Caeth a Rhydd ar werth o unrhyw siop lyfrau Gymraeg am £9, neu o wefan Gwasg Carreg Gwalch.

Un funud fach ...

WEDI TORRI

Oes yna hen geriach wedi torri yn llenwi'ch atig neu'ch sied neu'ch garej chi? Pethau yr ydych wedi eu cadw er nad ydych chi na neb arall yn debygol o fedru gwneud dim â nhw eto? Mae acw ambell beth o'r fath y mae'n rhaid i mi gyfaddef nad wyf yn siŵr pam fy mod wedi mynnu eu cadw. Yn eu plith mae teganau, jygiau, llyfrau a hyd yn oed dân trydan a darnau o hen ddrymiau. Mi fyddai llawer wedi eu taflu ers blynyddoedd; ac mae'n debyg mai nhw fyddai gallaf. Ond am ryw reswm fe'u cedwais, a hynny o bosibl am fy mod yn credu eu bod yn rhy dda i'w taflu, neu am fy mod yn gobeithio y bydd modd gwneud defnydd ohonynt ryw ddydd.

Fel y jwg nad yw'n dal dŵr a'r tân trydan nad yw'n rhoi gwres, wedi torri yw ein hanes ninnau. Felly yn sicr yr ydym gerbron Duw, bawb ohonom, yn bobl heb fod yn gweithio'n iawn. Yn fwy cywir, heb fod yn gweithio o gwbl. Ac fel pobl wedi torri, dydyn ni'n dda i ddim. Dydyn ni ddim yn caru Duw nac yn ei ogoneddu ef, ac o ganlyniad fedrwn ni ddim caru pobl eraill fel y mae Duw wedi bwriadu i ni wneud.

Newyddion da'r Beibl yw bod Duw wedi trefnu ffordd i bobl sydd wedi torri gael eu cadw'n ddiogel. Ond nid eu cadw fel y pethau a adawyd yn yr atig neu a daflwyd i gefn y garej a wnaeth. Nid eu gadael fel y pethau sy'n hel llwch neu'n rhydu, heb obaith am fod o unrhyw werth. Mi allai Duw fod wedi ein gwrthod a'n taflu ymaith am nad ydym yn gweithio'n iawn. A dweud y gwir, dyna mae'n ei wneud. Ond mae'r Efengyl yn dangos nad oes raid i hynny ddigwydd gan fod Duw wedi trefnu i osgoi hynny.

Nid ein gadael fel ydym a wnaeth. Nid ymatal rhag ein taflu ymaith, a'n gadael yn bobl wedi torri. Trwy ei Fab Iesu Grist, mae wedi trefnu ffordd i'n trwsio. Ond nid tacluso ychydig ar ein bywydau a wna'r Iesu. Gallaf ddychmygu rhywun yn twtio rhai o'r pethau a dorrrwyd: gludo darnau'r jwg at ei gilydd, er enghraifft, er mwyn iddo fod yn debyg i'r hyn ydoedd. Ond nid dyna ffordd Duw. Nid gwneud i bobl edrych fel newydd a wna Duw, ond ein gwneud ni yn newydd.

Nid ein diogelu rhag y domen sbwriel a'n cadw fel yr ydym a wna Duw ond ein gwneud yn gwbl newydd trwy ffydd yn ei Fab Iesu Grist. Wrth i ni gydnabod mai pobl wedi torri ydym, mae Duw yn ei drugaredd yn ein gwneud yn newydd. Mae'r rhwygiadau a'r craciau a'r beiau wedi eu tynnu oddi arnom ac wedi eu rhoi ar yr Arglwydd Iesu. Mae popeth sy'n ein rhwystro rhag gweithio'n iawn wedi eu rhoi arno ef. Ac o'r herwydd mae Duw'n edrych arnom fel petaem yn berffaith, yn ein cyfrif yn berffaith ac yn gwbl newydd. A thrwy ei Ysbryd Glân, mae Duw wedyn yn ein galluogi i weithio fel y bwriadwyd i ni wneud o'r cychwyn, gan ei garu a'i wasanaethu ef a charu a gwasanaethu ein gilydd.

JOHN PRITCHARD



GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286) 650552 Mob. 07712779475

Bws Penisarwaun.

Dyma gwblhau'r penillion oedd 'ar goll' o'r gân a anfonwyd gan Huw Hughes y mis diwethaf. Gyda diolch i Ieuan Williams, Bethel am ei hanfon. Ond oes rhywrai yn gwybod pwy ydi'r cymeriadau yn y gân? Beth ydi arwyddocad "nyth y Jac-do"? A phwy oedd yr awdur, Rhiwenydd?

John Evans, conductor, edrychai yn syn
Wrth weled a chlywed rhialtwch fel hyn;
"Hei up!" meddai'r Driver, "rwy'n myned yn awr
I guro Bob Gruffydd i fyny, neu lawr."

"Ar fengoch mi awn ni ryw fore mewn pryd
A'u gadael fel mynwent i gysgu i gyd.
Ple mae Thomas Huws gyda Dafydd y Go?
Gaed pwysau cloc Deiniol o nyth y Jack Do."

Daw Deiniol gan redeg a sychu ei chwys,
John Daniel sy'n gweiddi "Cau fotwm dy gryd";
Ond pan gafodd Daniel ei wynt, medda fo -
"Ond pwysau fy nghloc sydd yn nyth y Jack Do."

Ar hyn fe gaed araith wfreiddiol, nid ffug,
Ar gychwyn yn brydlon, gan ddyd o Lanrug;
Hwt! Hwt! meddai'r hwтар cyn cychwyn y car
Ar heol lyfn wastad o fetlin a thar.

Ond pan oedd y modur yn ymyl Tŷ'r Crydd,
Pwy redodd o rywle ond Huwcyn Bryn Rhydd,
Ai' ddwylo i fyny yn gwaeddi, "Howld on
I beth dach chi'n cychwyn heb Edwin a John?"

Ac wedyn pan ydoedd yn ymyl Tŷ Gwyn,
Mae rhywun yn rhywle yn gwaeddi fel hyn:-
"Howld! Stopiwch mae Johnny a Percy yn dod,"
Ac am eu rhedegfa cant cheers a chlod.

O'r diwedd, o'r diwedd mae pawb yn y bys,
A diwedd ar helynt y gwaeddi a'r ffys,
A mwg dail yr India yn llenwi ar daen,
Fel yna gadewir tref Penisa'rwaen

Rhiwenydd.

ECO'r
Wyddfa

**Cefnogwch ein
hysbysebwyrr**



Ar ben arall i'r lein

Be ydi dyfodol pysgota yn yr hen fro 'ma dwch? Mae hyd yn oed y tywydd yn cynllwynio i gadw rhywun yn y tŷ. Dwi ond wedi bod allan ar y Seiont ddwy waith eleni, gyda dim yn gwneud o gwbl. Y gwynt i fyny'r afon mor oer yn fy ngyrru adref a'm cynffon rhwng fy nghoesau. Ac felly mae wedi bod i bawb ar yr afon heblaw y rhai sydd wedi bod yn ddigon ffodus i ddewis rhyw awr neu ddwy ar ddyddiau pan mae'r tymheredd wedi codi rhyw ychydig. Mae ychydig o frithyll wedi dod o'r Stablau, a rhai o'r rhain wedi eu cadarnhau gan fod y 'sgotwr llwyddiannus, sef Dr. Robin Parry, Llanberis, yn hoff iawn o anfon lluniau o'i lwyddiant i mi. Tynnu dŵr o'm dannedd yw ei fwriad, ac o yndi mae'n llwyddo i wneud hynny, ond mi gaiff weld pan ddaw tro ar y tywydd a'r sewin yn gwneud eu ffordd o'r afon i'r hen badell 'na yn Llugwy, Bethel.

Un o gyfrinachau cadw 'sgotwrs yn weddol hapus (a dyna i chi waith caled!) yw ceisio cynnig pysgota ble mae cyfle da o ddal, mae hyn yn goblyn o waith caled drwy gysidro fod y tymor yn rhedeg o'r 3ydd Mawrth i 30 Tachwedd. I gyflenwi'r alwad yma mae'n rhaid felly stocio, a'r pysg sydd fwyaf effeithiol at y gwaith yma yw brithyll yr enfys. Dyma bysgodyn hardd a'i liw yn adlewyrchu ei enw. 'Sgodyn yw'n wreiddiol o Ogledd America ac un sy'n gallu bod yn fywiog dros ben pan mae'r tywydd yn eithriadol o oer. Dyma ble mae'n curo ein brithyll brown lleol - tydi'r hogiau yma ddim am gael eu denu i'r bluen o gwbl ar dymheredd o'r fath.

Mae rheolau llym ar leoliadau ble caiff stocio gymryd lle, un rheswm yw fod brithyll yr enfys yn cystadlu am fwyd y brithyll brown, felly y rheol yw eu bod i'w stocio i lynnoedd ble does dim mynediad uniongyrchol i'n afonydd. Llecyn delfrydol i hyn yn y fro yw Llyn y Dywarchen, ac mae'n atyniad mawr i bysgotwyr o bell ac agos. Mae'r stocio rheolaidd yn sicrhau - wel bron iawn - lwyddiant go aml, yn enwedig yn ystod Ebrill er bod yr hen wynt 'na yn torri trwy bob dilledyn. 'Booby' yw'r bluen i'w defnyddio - wel mae fwy tebyg i frwsh siafio gyda llygaid nag ydyw i bluen draddodiadol. Ond, wrth gwrs, mae'n rhaid symud gyda'r amser.

Ond yn anffodus, fel y cyffyrddais â'r pwnc yn ystod 2016, mae rhai yn benderfynol eu bod am bysgota heb ymaelodi na chodi tocyn dyddiol. Er bod rheolau'r clwb yn dynodi pysgota â phluen yn unig, mae rhai yn torri pob un o'r rheolau. Ar adegau maent yn mynd yn fygythiol dros ben ac, yn anffodus, mae hyn i'w weld yn dderbyniol gan bod yr awdurdodau - Heddlu Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru - i'w gweld yn hollol fodlon anwybyddu'n holl gwynion ni.

Esiampl o hyn oedd gyda'r nos 18 Ebrill, pan anfonais e-bost i'r Heddlu a CNC am ymddygiad ar y llyn rhyw ychydig oriau ynghynt. Be oedd yr ymateb? - wel nad oedd y ddau swyddog perthnasol ar gael tan 24/4 ac i ffonio llinell argyfwng. 'Roedd yr argyfwng wedi hen fynd yn doedd! ond gyda phrofiad llynedd, ofer fuasai cysylltu â'r rhif yma. O bosib efallai fel yna mae pethau i fod yn y byd cyfoes modern 'ma - a dyna pam y byddaf yn crafu fy mhen a gofyn y cwestiwn - mewn mwy nac un ystyr - 'Be fydd canlyniad yr holl ddifaterwch yma yn y pen draw?' Mi wn y buasai sawl hen heddwas a chipar afon yn troi yn eu bedd wrth wybod be sy'n digwydd heddiw.

Yn dilyn sylwadau y mis diwethaf ynglŷn â Glyn Rhonwy, 'rydym wedi cael rhyw gyfarfod byr gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â



dyfodol y bysgodfa os bydd i'r cynllun yma gael ei wireddu. Doedd dim gwybodaeth ar gael i leddfu ein pryderon. Mae'n amlwg y bydd yn rhaid cnocio tipyn mwy ar y garreg yna cyn cael unrhyw synnwyr.

Tydi pethau'n newid fel fflamia yn tydi? Faint yn ôl y clywsom na fydd etholiad cyffredinol arall tan 2020, ond ar 18/4 cawsom wybodaeth y bydd un ar 8ed Mehefin eleni. I gyd i'w wneud â chilio o Ewrop medda nhw. A fydd hyn o fudd i ni fel 'sgotwrs, dwi ddim yn meddwl. Ond os byddai yn golygu bod newid agwedd i fod ar sut mae pysgota'r moroedd sy'n amgylchynu'r ynysoedd 'ma yn cael ei reoli yna efallai y daw rhyw dda allan o'r holl beth i gyd. Ond, mewn difri, mae'r grym yma yn bodoli'n barod, y broblem fawr yw nad oes neb sydd gyda'r pŵer i ddefnyddio'r grym yma yn dangos unrhyw barodrwydd i'w ddefnyddio. Ond cofiwch, efallai yn y pen draw y cawn i gyd ein siomi ar yr ochr orau!

Mae cryn stŵr wedi bod ynglŷn â phenderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i atal stocio wyau a chywion eogiaid, ar y sail fod hyn yn gwanhau'r stoc cynhenid lleol. Mae'r penderfyniad yma wedi ei wneud ar gynnwys adroddiadau sydd yn ymwneud ag eogiaid o afonydd gorllewinol Canada, sef eogiaid y Môr Tawel. Pysgod yw'r rhain sy'n hollol wahanol i eogiaid Cymru, sef eogiaid Môr yr Iwerydd. Yn dilyn adroddiad yn y cylchgrawn diweddaraf o 'Trout & Salmon' mae'n edrych yn debyg y bydd yn rhaid i CNC ail gysidro'r penderfyniad yma. Cawn weld beth a ddaw yn yr wythnosau nesaf.

'Roeddwn wedi rhyw hanner addo y buaswn wedi rhoi rhwyf bach ar Padarn erbyn yr adroddiad yma, ond heb fod ydw i, disgwyl iddi gynhesu. Ond, er cywilydd i mi, dwi'n cael adroddiadau fod rhai yn dal yno, dim dal fel y buaswn i yn hoffi cael helpa ydi hynny, wrth gwrs. Be sydd yn dod i'r rhwyd yw draenogiaid a mwy o ddraenogiaid, a ddoe, 18/4, cefais lun o benhwyaid. Dyma i chi dystiolaeth fod yr hen le 'ma yn newid. Ac arwydd o be ydi hyn - wel mi wna i adael i chwi weithio hynna allan eich hunain. Atebion erbyn mis nesaf os gwelwch yn dda.

Os oes rhyw ychydig o amser ar eich dwylo 'ewch lawr am dro bach o bentref Pontllyfni am y môr. Mae'n werth gweld y gwaith ardderchog mae rhyw ychydig bach o'r aelodau wedi ei wneud i glirio'r lle. Mae tipyn o waith eto i glirio'r Clymog Japan sydd yn trio cymryd y lle drosodd. Yndi mae'n werth gweld y gwaith - ond gofawch ble da chi'n rhoi eich traed. Oes mae cŵn anghyfrifol yn Pontllyfni hefyd!!

Hwyl tan mis nesaf.

Huw Price Hughes.



Bwbi



Llwyd corff main

Ffatri Wlân Treflan.

Tybed faint o drigolion y Waunfawr heddiw sydd yn gwybod, neu efallai wedi clywed am yr hen Ffatri Wlân oedd yn bodoli yn y pentref yn yr hen amser. Roedd Waunfawr yn y dyddiau cynnar wedi ei rannu yn fân bentrefi ar ymylon y corsdir, gyda enwau arnynt fel, Treflan, Ty Ucha'r Ffordd, Ty'n Gerddi, Bryn Eithin, Bryn Pistyll, Tai Isa, Pentra Waun a Hafod Olau. Tai bychain unllawr oedd y rhan fwyaf o'r cartrefi gyda, dau le tân a siambr fechan i gysgu ynddi. Yn ardal Treflan, neu Waun Dreflan fel yr adwaenid yn y ddeunawfed ganrif, roedd yr hen Ffatri Wlân yn ffynnu ac yn ei hanterth gyda nifer o wehyddion yr ardal yn cael eu cyflogi i nyddu gwahanol frethynnau o ddilladau, gwlanenni, gwrthbannau, a charthenni.

Roedd yr hen ffatri, neu'r Felin Wlân, wedi ei lleoli a'r ddarn o dir uwchben tyddyn Treflan Uchaf, nid nepell o fferm Garreg Fawr wrth droed Moel Eilio. Ar ddiwedd y tymhorau cneifio byddai'r gwlan yn cael ei gasglu o wahanaol ffermydd a thyddynod a'i drosglwyddo i'r ffatri, pryd y byddai'n cael ei baratoi yn drwyadl ar gyfer ei nyddu. Roedd yr hen ddull o drin y gwlan yn un unigryw iawn. Gan nad oedd sôn am gyfleusterau toiledau yr adeg honno, rhaid oedd i'r trigolion ar pob galwad, ddefnyddio'r ty-bach yng ngefn y tŷ neu waelod yr ardd, ar waethaf y tywydd. Gan fod hyn yn creu anhwylostod yn y nos, cedwid potyn pwrpasol, 'pot golch' fel y gelwid o dan y gwely ar gyfer galwad natur. Ymhen ychydig ddyddiau, deuai dyn o'r Ffatri Wlân o gwmpas yr ardal gyda throl a cheffyl i gasglu cynnwys y potiau a'i dywallt i gasgenni pwrpasol yng nghefn y drol a'i gludo yn ôl i'r ffatri. Unwaith yn y ffatri, tipiwyd y gwlan yn y casgeni a'i adael am ychydig amser i socian. Wedi iddo socian, ei osod fel planced neu gynfasen ar y llawr yn barod i'w hollti'n fân sdribedi o edafedd. Byddai'r lleithder a'r amonia yn y golch wedyn fel olew yn hwyluso'r broses o'i nyddu. Wedi eu nyddu, golchwyd y gwlanenni yn wyn ac yn lân yn y nant fechan oedd yn llifo ychydig latheni oddiwrth yr adeilad i wared â'r budredd ac effaith y golch oddi arnynt. Yna, gosodwyd y gwlanenni o flaen y tân neu allan yng ngwres yr haul i sychu. Anodd credu heddiw y fath arogl fyddai'r gwehyddion druan yn gorfod ei ddiodde yn y ffatri yr adeg honno.

Yn y flwyddyn 1730, amcangyfrifwyd fod oddeutu 500 o weithwyr ym mwngloddiau Drws y Coed a Simdde'r Ddylluan. Gwnaethpwyd y rhan helaeth o ddilladau'r gweithwyr yma yn hen Ffatri Wlân Treflan. Roedd yr hen bandy Hafod-y-Wern Betws Garmon hefyd y pryd hynny, oedd yn llawer hynach na ffatri Treflan, yn cynhyrchu dillad ar gyfer gweithwyr gwaith copr Drws y Coed a Simdde'r Ddylluan.

Yn ogystal â'r gwaith copr, roedd ffeiriau a marchnadoedd y cyfnod hefyd yn holl bwysig ar gyfer cynnal yr hen ffatri. Cariwyd dilladau yn bynnau ar gefn merlod i ffeiriau cyn belled a Llangefni a Llannerchymedd, a'i gwerthu yno am brisiau cystadleuol. Gan fod y ffordd am adre yn hir a maith, rhaid oedd i'r cludwyr gael ambell saib ar hyd y ffordd ar gyfer galwad natur. Er mwyn

preifatrwydd i basio dŵr, byddai'r merched yn gwro i un ochr y drol, gyda'r dynion yr ochr arall yn sefyll yng nghefn â'r olwyn, ac wedi iddynt orffen eu dylifiaid, ail gychwyn ar y daith am adre. Dywedir ar achlysur un o'r ffeiriau hyn, i ddyd o'r ffatri gael profiad ysgytwol a chyffrous tra'n cerdded y ffordd am adre. Wedi diwrnod da o werthu a'i bwrs yn llawn arian, cychwynnodd ar y daith flinedig yn ôl i'r Waun. Wedi cyrraedd hyd at 'Allt Gorffwys,' oddeutu dwy filltir o'r pentref, roedd wedi nosi ac yn hollol dywyll. Tua hanner ffordd i fyny'r allt, clywodd swm traed yn dod o'r tu ôl iddo yn y tywyllwch. Deuai'r swm yn agosach ar bob cam, ac wedi sylweddoli fod rhywun yn ei ddilyn codwyd arswyd ac ofn mawr arno. Tybed mai lleidr ydoedd ac yn barod i ymosod a dwyn arian y ffair oddi arno. Nid nepell o ben yr allt roedd fferm Glanrafon Bach, ac yn ei ddychryn prysurodd i gyfeiriad y tŷ gan guro'n drwm ar y drws. Wedi esbonio i'r perchennog am ei brofiad, croesawyd ef i'r tŷ pryd y cafodd lety a gwely cynnes hyd y bore, gyda'r arian yn dal yn ddiogel yn ei feddiant.

Ychydig iawn o bobl y dyddiau yma sy'n ymwybodol o'r hen enw 'Allt Gorffwys,' fel y crybwyllir. Yn yr hen amser, ymhell cyn dyfodiad y trafndiaeth modern a phryur fel y mae heddiw, roedd yn arferiad i lawer o bobl pentrefi fel y Waunfawr a Betws Garmon gerdded y ffordd adref o Gaernarfon. Golygai hyn ddringo gelltydd hir a serth hynod flinedig. Un o'r gelltydd yma oedd 'Allt Gorffwys,' sy'n ymestyn oddeutu dri chwarter milltir o bentref Caeathro hyd at Ben-y-Cefn, hanner ffordd i'r Waunfawr. Wedi cyrraedd pen yr allt, byddai

llawer wedi llwyr flino ac allan o wynt, ac er mwyn cael seibiant a'i gwynt atynt, byddant yn eistedd neu orwedd am ychydig amser wrth y clawdd i gael 'gorffwys,' cyn ail gychwyn ar y ffordd am adref.

Ymhen amser, daeth tró ar fyd i fywyd yr hen Ffatri Wlân. Gyda'r oes a'r ffasiwn yn brysur newid, roedd ei dyfodol dan fygythiad ac yn y fantol. Aeth y dynion i wisgo dilladau diweddaraf y dydd, a'r merched sidanau a ffiriliau, ac o ganlyniad lleihau oedd nifer yr archebion am ei chynnyrch. Roedd y chwareli hefyd erbyn hyn yn dechrau dod i'r amlwg, ac yn denu a chyflogi nifer o ddynion yr ardaloedd o gwmpas. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yr hen ffatri wedi hen ddadfeilio a throi yn furddun ac mae olion yr hen lé i'w weld ar y safle hyd heddiw. Mynnai y diweddar annwyl Robot Griffith, Ty'n 'Ronnen Waunfawr yn ystod ail hanner y ganrif ddiwethaf, fod ganddo yn ei feddiant garthen oedd wedi ei gwneud yn yr hen Ffatri Wlân. Ar y garthen roedd patrwm o gastell Caernarfon mewn lliwiau côch a glas tywyll, a chadwai'r garthen ar ei wely i'w gadw'n gynnes yn y nôs. Tybed os oes rhywun heddiw a charthen o'r hen Ffatri Wlân Treflan yn eu meddiant.

Gwilym. Morris Jones.

Lluniau Aled Taylor a'r awdur ger yr Hen Felin

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

BOSCH Service Car Service

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader

01286 673559

For everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202



Er cof am Ken Beudy Mawr

Mae isho hwyl ddaeth o'i ena
I annog pawb i fwynhau
Mor braf oedd cael ei gwmni
Yn llawn hwyl a direidi,

Daeth cwmwl du dros grib goch
Wrth golli bugail Bwlch Moch
Tawel fydd aelwyd Beudy Mawr
Heb son Ken yno yn awr
Bydd y Nant dipyn tlotach
Colli brawd a'i chwerthin iach.
Elfyn Williams

Ar y 12fed o Fawrth bu farw Mr Kenneth Griffith, Beudy Mawr, yn ei gartref. Roedd yn 84 mlwydd oed. Roedd Ken Beudy Mawr yn un o gymeriadau mwyaf y pentref ac mae'r golled ar ei ôl yn fawr. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Lynne, John, Margaret, Richard, David ac Annwen.



Dymuna Margaret, John, Richard, David ac Annwen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid arbennig iawn.



Dymuna Dafydd a Llinos Pritchard, Fron Rhedyn, ddiolch o galon i bawb am yr holl gyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbynion nhw ar enedigaeth eu merch, Branwen Elidir, ar yr 11eg o Fawrth, chwaer fach i Manon, Miriam, Kate a Gruffudd.

Chwaraeon

MIS O LWYDDIANT

“Mi wella ‘i pan ddaw’r Gwanwyn”, meddai’r hen gan ac yn sicr dyna hanes ein timau pêl-droed lleol. Cafodd Lanberis rediad da wedi colli o’r unig gôl draw ar faes y ceffylau blaen yng Nghlantraeth. Yn ôl daeth Y Darans a bwrw Cyffordd Llandudno oddiar y cledrau o 2-1. Yna curo’r Bermo o 4-1, a gyda 5 gêm gynghrair ar ôl fe ddylsent gadw eu lle yn yr Adran Gyntaf.

Roedd mis Llanrug yn arbennig yn curo pob un o’u gemau cynghrair. Maent wedi saethu i fyny’r tabl a gyda’u gemau mewn llaw mae gobaith i orffen yn y pedwar uchaf. A rownd derfynol y cwpan i ddod hefyd.

Mae’r gemau mewn llaw gan Waunfawr yn siwr o’u danfon hwythau i fyny’r tabl.

Os siomedig fu eu tymor gynghreiriol yna maent wedi tanio yn y cwpan. Fe luniwyd y golofn hon cyn rownd gyn-derfynol Cwpan Iau y Gogledd. Ond bydd un ffeinal yn ei disgwyl yng Nghwpan Meditel. Ac am ffordd o ennill eu lle. Curo eu cymdogion Bontnewydd o 3-1 draw yn y Bont. Goliau Sion Roberts, Elis Povey a Jac Evans yn galluogi y Beganifs i wynebu Bro Goronwy yn y rownd derfynol.

Dymuniadau gorau i dîm -16 Llanberis fydd yn herio eu hen elynion Dinbych yn rownd derfynol Cwpan Gogledd Cymru ar Ebrill 29 ar faes pêl-droed Penmaenmawr.

Edrychwn ymlaen i golofnau mis Mai a lluniau o’n timau lleol yn codi ambell i gwpan gobeithio.

HEL ATGOFION

Wedi’r digwyddiad gyda’r defaid ar Faes Padarn ceisiais gofio am achlysuron rhyfedd eraill fe fues i’n ymwneud â nhw ar feysydd chwaraeon.

Dyfarnu gêm ar Faes Beach Rd., Bangor, a thair pêl yn cael ei colli o’u cicio i’r môr. Pan aeth yr unig bêl oedd ar ôl i’r môr, aeth dau o chwaraewyr Hiraal at eu ceseiliau i’r dŵr budr, oer i achub y bêl, a llwyddwyd i orffen y gêm.

Y gêm enwog rhwng Llanrug a’r Brifysgol- yr enwog 17-0. Roedd angen 13 o goliau ar Lanrug i gipio Cynghrair Gwynedd oddiwrth Machno. Roedd Llanrug wedi gosod ‘ball-boys’ o gwmpas y cae, a phob tro yr âi’r bel i’r caeau o gwmpas y maes roedd rhyw dair neu pedair pêl yn ymddangos. Doedd dim eiliad i’w cholli. Efallai mai wedi’r gêm yma y cafodd FIFA y syniad o gael peli tu ôl i’r gôl fel bod gemau yn llifo. Honno, gyda llaw, oedd y gêm olaf i mi ddyfarnu.

Besda Celts v Llechid. Gwyn Pierce Owen yn dyfarnu. Brian Corbri (oedd wedi dod i chwarae i Besda gyda Emrys Coch ac Einion) yn rhoi cic i un o hogia Llechid.

“ Tyrd yma, Brian. Be ‘di dy enw di Brian”

“ B. Roberts” meddai Corbri’n dawel. Hogyn shy oedd Brian.

GPO yn gofyn yr ail waith.

“ Tyrd, Brian be ‘di dy enw ‘di.”

“ B. Roberts, wyt ti’m yn blydi clwad?”

“Off.”

A sawl gwaith fyddai’r chwaraewyr yn diawlio pan fyddai’r bêl yn taro y wifren deffôn oedd yn croesi hen gae Mountain Rangers ym Montnewydd ar ganol symudiad da. Y chwaraewyr yn disgwyl i’r dyfarnwr wneud rhywbeth am y peth.

“ Ffoniwch y league,” oedd ateb smala un dyfarnwr.

Ac yna’r gêm honno draw yn Betws Garmon pan oedd Waunfawr yn chwarae gemau cartref yno. Os rwyn cofio’n iawn onid dyfarnwr o Lanberis wrthododd gychwyn y gêm am bod y defaid wedi gadael gormod o’u hol ar y cae.

CORONI’R FREUDDWYD

Pum mlynedd yn ôl y penderfynodd Undeb Rygbi Cymru fuddsoddi’n ariannol i geisio wneud iawn am eu anwybyddiaeth o rygbi yn y Gogledd dros y blynyddoedd.

Sefydlwyd tîm rhanbarthol y Gogledd, a chyda gweledigaeth a chefnogaeth Cyngor Sirol Conwy sefydlwyd canolfan o’r radd flaenaf ar Barc Eirias, Bae Colwyn.

Ar wahan i’r cyfleusterau chwarae safonol, eisteddleoedd a manau arlwy, mae hefyd gyfleusterau hyfforddi dan-dô gwych. Rhaid cofio bod y clybiau yn y gogledd wedi mynwsu y syniad ac erbyn hyn daw aelodau’r garfan o bob pegwn o’r gogledd. Mae’r undod hwn wedi bod yn factor ddigamsyniol ar y daith ryfeddol hon. O’r cynghreiriau ardal trwodd i ennill eu lle yn Uwch -gynghrair Cymru. Y norm bellach

yw gweld RGC yn herio’r clybiau traddodiadol fel Caerdydd, Castell Nedd, Abertawe, Glyn Ebbwy a Phontypridd. Denir torfeydd sy’n cymharu’n ffafriol iawn a thorfeydd y De, gyda 3000 yno yn gwyllo’r frwydr yn erbyn Merthyr.

Rhaid diolch i’r Undeb am drefnu bod hyfforddwyr fel Phil Davies, Mark Jones a Phil John wedi eu denu i roddi eu stamp ar chwarae’r garfan. Mae gwaith Mark Jones ar ddatblygu’r cefnwyr elenni wedi body n drawiadol. Hefyd mae ffirwydd y garfan wedi sicrhau sawl buddugoliaeth mewn gemau agos.

Y gobaith bellach yw na fydd chwaraewyr dawnus y gogledd yn gorfod teithio i chwarae i glybiau’r De. I wrthsefyll hynny bydd yn ddibynnol ar beth fydd statws rhanbarth y Gogledd tu fewn I strwythr URC. Ar hyn o bryd mae Rhanbarth y Dreigiau yn gwegian, ond ni allaf weld yr Undeb – sydd bellach yn berchnogion y rhanbarth a’u cae – yn caniatáu pumed rhanbarth ar gyfer cystadleuaeth y Pro 12.

Coronwyd y pum mlynedd o fuddsoddiad trwy gipio Cwpan Cymru draw ar y Stadiwm Genedlaethol. Perfformiad o falchder ac ymroddiad ac undod amlwg rhwng chwaraewyr a chefnogwyr. Diwrnod i’w drysori. Dyma’r digwyddiadau sydd yn denu ieuencid i chwarae’r gêm. Rhaid cofio hefyd fod clybiau Nant Conwy a Phyllheli werdi dod yn agos iawn i gyrraedd Diwrnod y Ffeinals yn eu cystadlaethau hwy.

Cofiwch am y gêm rhwng RGC a charfan genedlaethol Cymru ym mis Mehefin ar Barc Eirias.

SGWRS?

Mae’n ymddangos i’r sgwrs ganlynnol gael ei chlywed ar Faes Padarn yn ystod y gêm ddiweddar rhwng Llanberis a Chyffordd Llandudno. Y dyfarnwr yw’r prif siaradwr.

“ Hey, ewe two come here.”

“ Be! Be!

“Ewe two.”

Be!Be!

“ Speak English! Shear cheek.”

“Be! Be!”

“ Don’t give me that sheepish look.”

“Be! Be!”

“ Ungentlemanly conduct.”

“Be! Be!

“ Don’t try to pull the wool over my eyes.”

“Be!Be!”

“ Right. It’s the chop for you two. Off!”

Roedd nifer o’r dorff yn meddwl bod y ddwy yn BRÛF iawn!

APÊL TLWS YRECO

Gan fod yr ymateb mor wan y tymor diwethaf a all swyddogion y clybiau pêl-droed lleol -9 a -11 gysylltu a mi i weld os oes diben cario ymlaen gyda Thlws yr Eco elenni. Mae’r gystadleuaeth wedi rhedeg yn ddi-dor yn ardal yr Eco am dros 40 mlynedd. Yn yr un modd a oes gan y clybiau unrhyw awgrymiadau sut y gellir adfywio y gystadleuaeth.

RHEDEG MYNYDD

Bu'n fis hynod o brysur ar y mynyddoedd ac ar lwybrau; nid yn unig yn Eryri, ond dros y ffin yn Lloegr a thros y dwr yn Iwerddon. A bu'n hynod llwyddiannus hefyd.

Teithiodd pedair merch o'r fro i gynrychioli Rhedwyr Eryri ym Mhencampwriaeth Rasio Mynydd Prydain yn Iwerddon, gan herio Sialens Donnard. Daeth Miranda Grant (Llanberis) yn ail, Bronwen Jenkinson (Waunfawr) yn bedwaredd, Sarah Harley (Brynrefail) yn wythfed a Lou Beetlestone (Rhiwlas) yn ddegfed yn ras y merched, a sicrhau'r tim cyntaf. Cychwyn arbennig o dda yn rownd gyntaf y Bencampwriaeth. Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd y merched (a thim o ddynion, gobeithio!) wedi cystadlu'n yr ail rownd yn yr Alban.



Lerpwl i Fanceinion

Mae Rasys Nos Fawrth wedi profi'n hynod boblogaidd eto eleni a dros gant o redwyr wedi cystadlu ym mhob un o'r rasys hyd yma, er gwaethaf tywydd anffafriol iawn ar brydiau. Mae adrannau'r plant a'r ieuencid hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cystadleuwyr. Oherwydd y niferoedd, nid yw'r holl ganlyniadau wedi eu didoli hyd yma, ond gydag wythnos o egwyl heb rasio, siawns na fydd mwy o wybodaeth ar gael erbyn y rhifyn nesaf. Er hynny, gallwn fod yn eithaf sicr fod unigolion o'r fro yn amlwg iawn yn y rhengoedd blaen, a Sara Ridgway (Llanberis) wedi torri sawl record yn adran y merched dros 40 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Alwyn Oliver (Dinorwig) ar ddoed yn gyntaf yn adran dynion dros 70 oed yn Ras y Moelwyn yn gynharach yn y mis.

Ddydd Sadwrn y Pasg teithiodd pump aelod o Redwyr Eryri i Lerpwl – na, nid i siopa, ond i redeg yr holl ffordd i Fanceinion! Gan gychwyn y ras hanner can milltir (bron i ddwy farathon) am hanner awr wedi chwech y bore, rhaid oedd dilyn llwybrau yml y gamlas a pheth tir garw. Roedd dros ddau gant o redwyr wedi penderfynu mai dyma'r ffordd ddelfrydol o dreulio Sadwrn y Pasg, a phrofodd hynny'n llwyddiant i dim Eryri. Rhedodd Jennifer Charlton (Talybont, Bangor), Shaun Davies (Deiniolen) a Dyfed Thomas (Llanrug) gyda'i gilydd fel tim o dri, gan gwblhau'r ras mewn ychydig dros saith awr a gorffen yn gyfartal nawfed. Roedd Jennifer yn drydedd ferch. Yn ddiweddarach y cawsant wybod mai nhw enillodd y wobwr tim; bron i awr a hanner ar y blaen i'r ail dim.



Rhwyfo

Timau rhwyfo Cymru wedi eu hymarfer ar Lyn Padarn wedi'r Pasg.

Chwaraeon

Pencampwyr Pel-fasged Gogledd Cymru



Mae dau dim pel-fasged o Ysgol Brynrefail yn Bencampwyr Ysgolion Gogledd Cymru yn dilyn cystadleuaeth yn Wrecsam yn gynharach fis Ebrill. Roedd tim Blwyddyn 9 a thim Blwyddyn 11 yn fuddugol yn y gystadleuaeth, ac yn ennill yr hawl i deithio

i Gaerdydd i gystadlu yn genedlaethol ddiwedd y mis. Cafwyd perfformiadau da iawn gan y ddau dim, gyda Blwyddyn 9 yn dod yn drydydd drwy Gymru a Blwyddyn 11 yn bedwerydd.

Pencampwyr Eryri



Roedd dau dim pel-fasged o Flwyddyn 8 yn cystadlu ym mhencampwriaeth ysgolion Eryri yng Nghanolfan Brailsford, Bangor. Daeth Tim A yn fuddugol a chael eu coroni'n Bencampwyr Eryri, a Thim B yn drydydd.



Yn Ras Ultra Lerpwl i Fanceinion hefyd roedd Fiona Owen (Llanrug) a Hugh Morgan (Bethel) yn ychwanegu 50 milltir arall at eu her 500. Mae'n amlwg o'r llun mai math gwahanol o fwynhau oedd ar eu meddyliau nhw!